

ECO'r Wyddfa



Cynghorwyr Lleol Bro'r Eco

Mae trigolion Bro Eco'r Wyddfa wedi ethol y cynghorwyr lleol fydd yn cynrychioli ein cymunedau am y blynnyddoedd nesaf. Dewch i ddysgu mwy amdanynt ar dud 4.



Yn y rhifyn hwn:

- Dathlu pen-blwydd Rheilffordd Llyn Padarn - tud 2
- Merch yn serennu yn y rasys mynydd lleol - tud 32



- Cofnodi enw'r Allt Ddu - tud 10



- Tapestri Castell Dolbadarn - tud 16
- Buddugoliaeth tîm dan 11 Ysgolion Gwynedd - tud 31



Elin Enfys

Chwilio am Elin Enfys

Ble mae Elin Enfys?
Dewch o hyd
iddi'n cuddio
mewn 8 lle
yn y papur.



SWYDDOGION A GOHEBWYR

Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

Golygydd Chwaraeon
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

Golygydd yr Ifanc
Marged Rhys –marged_3@hotmail.com

Ffotograffydd
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

Trefnydd Ariannol
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

Trefnydd Gwerthiant Post
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

Trefnydd Bwndelu
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

Dylunydd
Elgan Griffiths – post@elgangriffiths.com

GOHEBWYR PENTREFI

Bethel:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

Brynrefail:
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

Caeathro:
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

Deiniolen:
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

Dinorwig:
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

Llanberis:
Eifion Roberts
Swyn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

Llanrug:
Eryl Roberts.
Peris, 56 Glanffynnon, Llanrug.
01286 675384.

Nant Peris:
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

Penisarwaun:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

Waunfawr:
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

Yn ystod y mis aeth heibio...

- Comic** - Copi o ‘Captain America Comics No.1’ a gyhoeddwyd yn 1941 ac sy’n dangos Capten America yn rhoi dyrnod i Adolf Hitler, wedi gwerthu mewn ocsiwn yn Texas am £2.4 miliwn.
- Smocio** - Barcelona yn gwahardd ysmegu ar ei thraethau glan y môr; hyn yn dilyn arbrawf llwyddiannus y llynedd mewn 4 o’r 10 traeth. Amcangyfrifir fod tua 2,000 o drigolion Barcelona yn marw bob blwyddyn o afiechydon yn ymwneud ag ysmegu.
- Troed** - Mae archeolegwyr yn credu eu bod wedi darganfod troed dinosor a laddwyd 66 miliwn o flynyddoedd yn ôl pan gafodd y ddaear ei tharo gan asteroid.
- Lliw** - Arolwg gan naturiaethwyr yn profi fod adar yn fwy lliwgar po agosaf yw eu cynefin i’r cyhydedd. Mae’n ymddangos fod Charles Darwin wedi awgrymu’r posibilrwydd ond nad oedd modd ganddo i brofi’r ddamcaniaeth.
- Croquet** - Yn ôl cwmni John Lewis mae gwerthiant setiau croquet wedi cynyddu 90% - a’r cyfan oherwydd effaith yr ail gyfres o’r ddrama deledu *Bridgerton*.
- Ceir** - Gwerthwyd mwy o geir trydan yn ystod mis Mawrth eleni nac yn ystod 2021. Mae’r ystadegau’n dangos y bydd mwy o geir trydan na rhai petrol a disel yn cael eu gwerthu erbyn 2025.
- Comet** - Mae’r comet fwyaf erioed i gael ei chofnodi gan NASA yn teithio tuag atom ar gyflymder o 22,000 milltir yr awr. Ond does dim rhaid poeni a fydd yn taro’r ddaear – bydd o leiaf un biliwn o filltiroedd oddi wrth yr haul.
- Ysgariad** - Yn dilyn newid yn y gyfraith sy’n ei gwneud yn llai trafferthus i gyplau priod gael ysgariad, daeth 3,000 o geisiadau am ddiwedd priodas yn ystod yr wythnos gyntaf.
- Marathon** - Mae Kate Jayden, merch o Swydd Derby, wedi cwblhau 100 marathon mewn 100

Panel Golygyddol

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658

Rhoddion

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£20 Margaret Roberts, Rhedynog, Ffordd Bethel, Caernarfon

£20 Mrs Falmai Lloyd, Caernarfon

£20 Gweno, Mari, Meinir a’r teulu i ddatlu priodas ddiemwnt eu rhieni, Bet a Seiriol Owen, Bethel

£20 Rachel Thomas, Min-y-Rhos, Llanrug

£5 Anna Sidebotham, Whaley Bridge

£2 Mr a Mrs John Hughes Jones, Cil y Bont, Llanrug

Dathlu pen-blwydd hwyr Rheilffordd Llyn Padarn: 1971-2021

Ar ddiwedd y 1830au talodd Assheton Smith grocbris am dir Y Fachwen, ac erbyn dechrau’r degawd nesaf roedd ei weithwyr wrthi’n adeiladu tramffordd ar hyd glannau Llyn Padarn. Mae’n debyg mai ym 1848 y defnyddiwyd injan stêm gyntaf ar y lein a gafodd yr enw ‘Padarn Railway’. Ond ar lafar, ‘Lein Trên Chwaral’ oedd ei henw, yn rhedeg o’r Gilfach Ddu i Bensgoins uwch porthladd Y Felinheli.

Am dros ganrif cariodd y ‘Trên Chwaral’ rai miloedd o dunelli o lechi a rhai cannoedd o weithwyr. Ond daeth oes y rheilffordd i ben ym 1961 a chodwyd y rheiliau oddi ar ei gwely ym 1963. Dirywio hefyd a wnâi’r fasnach lechi, ond ym 1969 roedd mymryn o obaith y byddai’r orsedd dywysogaidd a wnaed o lechfaen Dinorwig, ac a chai ei harddangos i’r byd yn y syrcas frenhinol yng Nghastell Caernarfon, yn tynnu sylw at werth yr adnodd yng nghrombil Elidir. Nid felly y bu, a phrin wythnosau’n ddiweddarach, daeth dros ddwy ganrif o gloddio am lechi ar lethrau’r Elidir i ben.

Ym mis Rhagfyr 1969 cynhaliwyd ocsiwn ar yr hyn oedd yn weddill o eiddo Chwarel Dinorwig. Diolch i weledigaeth Hugh Richard Jones achubwyd adeiladau a chreiriau’r chwarel a gwelwyd sefydlu amgueddfa ar safle hen weithdai’r Gilfach Ddu. Yn yr un cyfnod daeth nifer o unigolion lleol at ei gilydd

gyda’r syniad o ail sefydlu’r ‘Lein Chwaral’ ar hyd glannau Llyn Padarn – i gario pobl yn hytrach na llechi. Roedd tair injan stêm wedi goroesi.

Bu sôn am sefydlu rheilffordd o amgylch y Llyn, gan ddefnyddio’r hen lein chwarel a gwely’r hen reilffordd Brydeinig a gaewyd tua’r un pryd gan fwyell *Beeching*. Ond rhagwelwyd y byddai codi pont ym mhen gogleddol y Llyn i gysylltu gwelyau’r ddwy reilffordd, a’r gost arfaethedig, yn ormod. Er hynny, sefydlwyd cwmni lleol Cymraeg a oedd yn cynnig 4,000 o gyfranddaliadau am £10 yr un (gwerth tua £140 heddiw). Ymhlith yr ymgyrchwyr a’r cyfarwyddwyr cynnar roedd Ieuan Ellis Jones, Llanberis, W.A. Jones, Llanrug ac Evan Parry, Ceunant.

Doedd yr *Eco* ddim yn bodoli bryd hynny i roi sylw i’r fenter, ac felly roedd yn fater o gysylltu â pherthnasau, cymdogion a chnocio ar ddrysau yng ngwahanol bentrefi’r fro i annog pobl i fuddsoddi ac i gefnogi. A bu’r holl waith yn llwyddiant. Ym mis Gorffennaf 1971 cychwynnodd taith gyntaf y trên o’r Gilfach Ddu ar hyd glannau Llyn Padarn hyd at y Cei Llydan: golygfa ddigon dieithr i rai nad oedd yn cofio oes y trên chwarel, ond golygfa sydd bellach yn rhan annatod o’r dyffryn. Roedd yr estyniad i Ben-llyn wedi ei orffen flwyddyn yn ddiweddarach.

Dyddiadau i’w cofio...

Rhifyn	Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis)	Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis)
Gorffennaf	10 Mehefin	24 Mehefin



diwrnod – cyfanswm o 2,620 milltir, sef y pellter o Aleppo, Syria, i Brydain. Mae wedi casglu dros £25,000 tuag at y Trussell Trust a'r Cyngor dros Ffoaduriaid.

- **Iselder** - Mae Coleg Imperial Llundain wedi darganfod fod cemegyn o'r enw Psilocobin, sydd i'w gael mewn madarch hud, yn gymorth i wella iselder. Mae arolwg gwahanol yng Ngholeg Caergrawnt yn awgrymu fod cerdded yn gyflym am ddwy awr a hanner yr wythnos yn lleihau'r posibilrwydd o ddioddef iselder.
- **Wisgi** - Mae cwsmer a brynodd gasgen o wisgi prin yn 1988 – ac yna anghofio amdani – wedi ei atgoffa o'r pryniant gan y cwmni o'r Alban. Mae'r gasgen bellach yn cael ei rhoi ar ocsiwn a disgwylir iddi werthu am bris o tua £439,000.
- **Cennin Pedr** - Darganfu gwyddonwyr fod

y blodyn yn cynnwys cemegyn o'r enw galantamine, sy'n cael ei ddefnyddio i arafu datblygiad yr afiechyd Alzheimer. Mae ffermwyr mynydd Cymru yn cael eu hannog i dyfu'r blodau fel cnwd ar y tiroedd uchel oherwydd bod yr amgylchiadau anodd yn achosi'r blodyn i gynhyrchu mwy o'r cemegyn.

- **Cajanus** - Mae ffermwyr de Madagascar wedi arallgyfeirio o ganlyniad i sychder difrifol yn neheudir yr ynys. Roedd eu cnydau arferol yn marw o ddiffyg dŵr, ond maent bellach yn tyfu cnydau Cajanus, math o bys sy'n tyfu ar dir sych, sy'n llawn maeth a hefyd yn cyfoethogi'r pridd.
- **Santiago** - Mae gwair yn diflannu o brifddinas Chile yn dilyn 13 mlynedd o sychder. Bellach mae planhigion y diffeithdir yn cael eu plannu ym mharciau

a gerddi'r ddinas. Mae'r sefyllfa mor argyfyngus fel bod dogni dŵr am y tro cyntaf erioed ym 500 mlynedd bodolaeth y ddinas.

- **Gog** - Cyrhaeddodd y gog Suffolk, wedi taith o 60,000 o filltiroedd. Fe gofnodwyd y daith gan y British Trust for Ornithology, gan gychwyn yn Gabon a hedfan i Weriniaeth y Congo, ymlaen i Ghana, cyn croesi i Sbaen ac yna i Brydain. Dyma'r pellter mwyaf erioed i gael ei gofnodi am daith y gog.
- **Ieir** - Wedi misoedd o gael eu cadw i mewn oherwydd fflw adar, mae ieir bellach yn cael crwydro'n rhydd.
- **Chwaraeon** - Mae mwy o bobl Prydain yn gwylio chwaraeon merched nac erioed o'r blaen yn ôl Ymddiriedolaeth Chwaraeon Merched.



Y cyfarwyddwyr cyntaf – tua 1971

Rhes flaen o'r chwith i'r dde: Gwyrfaï Thomas (gyrrwr), Alwyn Hughes Jones, Alan Lowry Porter, Leslie Lesser, Ieuan Ellis Jones a William John Fedrick
Ail res: Wmffra Roberts, W.A. Jones, Evan Parry a Jack Hindmarsh (giard)

Bygwth gan estron

Ar ddechrau 1985 prynwyd Rheilffordd yr Wyddfa gan gwmni *Cadogan Properties* o Lundain. Erbyn mis Mawrth roedd Mudiad Adfer yn rhybuddio am fwriadau'r cwmni yn Llanberis. Roedd y cwmni eisoes wedi sefydlu swyddfa gofrestredig yn y pentref, ac yn annog pobl leol i fuddsoddi. Roeddent yn cynnig cyfranddaliadau am 80 ceiniog yr un – eithriadol o rad, nes sylweddoli mai mil oedd isafswm y pryniant, sef gwerth £800. Does wybod faint o drigolion lleol a fanteisiodd ar y 'fargen' hon.

Roedd *Cadogan Properties* hefyd yn mynegi diddordeb mewn prynu cyfranddaliadau yng Nghwmni Rheilffordd Llyn Padarn. Gwrthod y cynnig yn bendant a wnaeth cyfarwyddwyr y rheilffordd – a dyna ddiwedd y mater yn eu barn hwy. Ond buan y darganfuwyd fod *Cadogan* yn gwneud cynnig uniongyrchol i gyfranddalwyr y rheilffordd, ac yn cynnig £25 am bob daliad gwerth £10.

Ymateb cyfarwyddwyr y



Yr orsaf newydd tua 2012.
Yr Injan – Elidir.

rheilffordd oedd llythyru â phob un o'u cyfranddalwyr yn eu hannog i wrthod cynnig *Cadogan* rhag i reolaeth y cwmni lithro allan o ddwylo lleol. Roedd y frwydr rhwng y cwmni o Lundain a'r cwmni lleol yn poethi, ac erbyn hyn roedd *Cadogan* yn cynnig £60 am bob cyfranddaliad. Ddechrau fis Mai 1985 dyma oedd gan olygydd yr *Eco* i'w ddweud: "*Lai na 200 o flynyddoedd yn ôl dechreuodd pobl leol yr ardal fenter eu hunain drwy ddechrau cloddio am lechi ar lethrau'r mynyddoedd cyfagos – a gweld estron o'r Faenol yn hawlio'r mentrau drwy dwyll. Menter pobl*

leol fu Rheilffordd Llyn Padarn hefyd. Nid twyll, ond difaterwch cyfranddalwyr allai achosi i'r cyfan fynd dan reolaeth yr estron o Lundain."

Ddiwedd y mis Mai tyngedfennol hwnnw roedd Cyfarfod Blynyddol Cwmni Rheilffordd Llyn Padarn, yn cael ei ddilyn gan Gyfarfod Anghyffredin i newid cyfansoddiad y cwmni. Roedd dau gynig gerbron y cyfranddalwyr, a'r ddau ynghlwm â'i gilydd. Byddai angen i bob cyfranddaliwr roi gwybod i'r cyfarwyddwyr o fwriad i werthu yn ôl y cynnig cyntaf, a'r ail gynig yn rhoi'r hawl cyntaf i'r cyfarwyddwyr (ar ran y cwmni) i brynu'r cyfranddaliadau rheini. Ar y pryd, roedd 2909 o gyfranddaliadau yng Nghwmni Rheilffordd Llyn Padarn, a hawl i bleidlais am bob cyfranddaliad. Pleidleisiodd 2304, gyda 2278 o blaid y cynigion a dim ond 26 yn erbyn. Buddugoliaeth ysgubol a ddangosai'n berffaith eglur i'r cwmni o Lundain nad oedd y cwmni lleol am i neb estron ymyrryd yn eu busnes.

Hyder wedi'r argyfwng ...

Lai na phymtheg mlynedd wedi'r cyfarfod tyngedfennol hwnnw ym mis Mai 1985 roedd y cwmni lleol yn dangos pa mor ffyddiog oedd yn nyfodol y rheilffordd. Cychwynnwyd ar chwe blynedd o gynllunio estyniad i'r rheilffordd; gwaith a gyrhaeddodd ei benllanw ar y 6ed o Fehefin 2003 gydag agoriad swyddogol gorsaf newydd, yn eironig iawn, gyferbyn â gorsaf y cwmni a geisiodd ei brynu ugain mlynedd ynghynt.

Golygodd yr estyniad fod nid yn unig orsaf newydd wedi ei hadeiladu, ond 875 metr o drac newydd wedi ei osod, pont ar draws afon y Bala a gwelliannau hefyd i'r hen orsaf yn y Gilfach

Ddu. Roedd y gost yn £900,000, a hanner y swm wedi dod o grantiau gan Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Twristiaeth Cymru a benthyciad gan Gyllid Cymru (a gafodd ei dalu'n ôl dros nifer o flynyddoedd). Bu Cyngor Gwynedd hefyd yn cyd-weithio'n agos ar y cynllun gydol y chwe blynedd.

Ar ddiwrnod yr agoriad swyddogol cafodd 200 o westeion eu diddanu gan fand jazz cyn cychwyn ar y siwrnai gyntaf o'r Gilfach Ddu i'r orsaf newydd, a chael gweld Castell Dolbadarn mewn persbectif newydd wrth i'r trên groesi'r ddôl. Yr Aelod Seneddol, Dafydd Wigley, wnaeth yr 'agor' swyddogol, a chafodd pob un o'r teithwyr docyn teithio efydd ar batrwm yr hen docyn a ddefnyddiai'r chwarelwyr i gael eu cario i'w gwaith ar y trên flynyddoedd ynghynt.

... ac ymlaen i'r dyfodol

Wedi hanner canrif o fodolaeth mae'r cwmni'n parhau'n lleol. Mae 44% o'r cyfranddalwyr yn byw yng Ngwynedd, a 26% yng ngweddill Cymru: arwydd pendant fod posib i gwmnïau wedi eu gwreiddio'n lleol lwyddo.

Mymryn dros ganrif oedd oes yr injan stêm ar y 'Lein Trên Chwarael'. Mae'r rheilffordd ar lannau Llyn Padarn eisoes wedi cyrraedd hanner oes y trên hwnnw, ac yn edrych ymlaen yn ffyddiog am y blynyddoedd fydd yn arwain at ddathlu'r ganrif.

Ychydig a feddyliai Assheton Smith mai rhai o ddisgynyddion y gweithwyr fu'n adeiladu'r rheilffordd wreiddiol a fyddai'n berchen arni erbyn heddiw, ac yn parhau i gynnig gwaith i drigolion lleol a phleser i bobl o bob rhan o'r byd.

prosiect mae'r Cyngor Cymuned yn ei redeg.

Yn fy amser sbâr rwy'n hoff o ddarllen, a chadw'n heini drwy nofio, beicio a rhedeg (yn araf iawn!)

Bydd llawer o sialensau dros y bum mlynedd nesaf, gan gynnwys sicrhau fod Ysgol Brynrefail yn cadw ei chweched dosbarth; mynd i'r afael â newid hinsawdd a thlodi a cheisio sicrhau tai fforddiadwy i gadw ein pobl ifanc yn eu cymunedau. Bydd angen pwysu ar Lywodraeth Cymru i ddeddfu ym maes tai a chynllunio er budd ein bro.

Manylion cyswllt: 07917 713099, cynghorydd. berwynparryjones@gwynedd.llyw.cymru

Beca Brown, Llanrug – Plaid Cymru

Ychydig dros flwyddyn sydd yna ers imi gael y ffrainc o gael fy ethol yn gynghorydd sir ar bentref Llanrug ble rydw i'n byw ers bron i ddeunaw mlynedd bellach. Mae trio dod yn agos at lenwi sgidiau'r diweddar annwyl Charles Jones yn parhau i fod yn her, ond dwi'n teimlo'n ffodus ac yn ddiolchgar o fod wedi cael y cyfle i wasanaethu'r pentref arbennig yma. Dwi'n dal i ddysgu a datblygu ond yn falch o'r datrysiadau dwi wedi gallu eu rhoi ar y gweill i unigolion ac i'r pentref, ac yn edrych ymlaen at barhau gyda'r trafodaethau am sut i wneud y sgwâr a Ffordd yr Orsaf yn fwy diogel i bawb.

Dwi'n Gynghorydd Cymuned ac yn falch iawn o'r gwaith sydd yn cael ei wneud gan y tîm yno, yn enwedig gyda'r Cynllun Bwyd sydd yn mynd peth ffordd at liniaru heriau pobol ein cymuned sydd yn teimlo gwasgfa ddi-gynsail y creisus costau byw.

Y peth gorau am fod yn gynghorydd sir ydi'r sgrysiâu dwi'n eu cael efo hwn a'r llall o ddydd i ddydd, ac mae'n ffrainc enfawr bod mewn rôl ble mae pobol yn teimlo'n hapus i rannu eu profiadau, pryderon a gobeithion efo fi. Pobol sydd yn gwneud cymuned ac rydan ni'n ffodus iawn o bobol y gymuned arbennig hon. Ar ddechrau tymor fel hyn dwi'n edrych ymlaen at gael parhau i godi llais dros Lanrug – dros ei phobol ifanc; dros ei hamgylchedd; dros ei diogelwch a dros ei Chymreictod. Gyda diolch i bawb am eu cefnogaeth ac am fy nychwelyd yn ddi-wrthwynebiad i'r cyngor eleni.

Manylion cyswllt: 07974 193131, cynghorydd. becabrown@gwynedd.llyw.cymru

Menna Jones, Bontnewydd – Plaid Cymru

Ers symud i'r ardal ddeng mlynedd yn ôl dwi'n falch 'mod i wedi hen wreiddio yma a'r plentyn hynaf wedi cychwyn yn nosbarth meithrin Ysgol Bontnewydd. Braint yw cael fy ethol yn gynghorydd dros yr ardal – sy'n cynnwys Caeathro erbyn hyn, cofiwch! – a dwi'n edrych ymlaen yn arw at fwrw iddi a bod yn llais effeithiol i'r ward ar y Cyngor Sir. Mae gen i ddealltwriaeth dda o weithdrefnau llywodraeth leol a dwi'n hyderus y medraf roi fy mhrofiad o weithio o fewn y Cyngor Sir ar waith er mwyn sicrhau datrysiadau i fy etholwyr.

Dwi'n Gadeirydd Cyngor Cymuned Waunfawr

ac yn Gynghorydd Cymuned yno ers pum mlynedd bellach. Mae cyfnod newydd ar droed i Bontnewydd yn sgil agor y ffordd osgoi hir-ddisgwyliedig, a dwi'n awyddus i ddelio gyda materion lleol o bob math – o faw ci a sbwriel i dai ar gyfer pobol leol. Fel mam i ddau o blant bach dwi'n ymwybodol iawn o'r angen i rymuso ein cymunedau er mwyn creu dyfodol llewyrchus i'n hieuenctid.

Hoffwn i ddiolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod yr etholiad ac edrychaf ymlaen at y gwaith sydd i ddod.

Manylion cyswllt: 07812 842278, Cynghorydd. MennaJones@gwynedd.llyw.cymru

Iwan Huws, Bethel a'r Felinheli – Plaid Cymru

Hogyn o'r Felinheli ydw i ac wedi mynychu Ysgol Gynradd Y Felinheli ac Ysgol Syr Hugh Owen. Es i 'mlaen o fannau i Brifysgolion Caerdydd a Bangor cyn cael gyrfa mewn gwarchod cefn gwlad a llywodraeth leol. Ro'n i'n Brif Weithredwr ar Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (1996-2003) ac yn Gyfarwyddwr Cymru – Ymddiriedolaeth Genedlaethol (2003-09). Ges i'r ffrainc o sefyll dros Blaid Cymru yn etholaeth Aberconwy yn Etholiadau'r Cynulliad 2011 a dod yn ail i'r Toriaid. Dwi wedi gweithio i Gyngor Sir Ynys Môn am y ddeng mlynedd ddiwethaf yn ymwneud â'r adran Twristiaeth a Morwrol. Dwi'n gadeirydd Cyngor Cymuned Y Felinheli ac yn byw yn Y Felinheli efo fy ngwraig Siân a fy nwy ferch Anna a Megan. Dwi'n edrych 'mlaen yn arw at ddefnyddio fy mhrofiad i wella pethau i bobol Y Felinheli, Bethel – a Gwynedd gyfan. **Manylion cyswllt:** 01248 671444, Cynghorydd. IwanHuws@gwynedd.llyw.cymru

Edgar Wyn Owen, Waunfawr – Plaid Cymru

Manylion cyswllt: 07900 331939, Cynghorydd. EdgarWynOwen@gwynedd.llyw.cymru



Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Elwyn Jones ar gael ei ethol yn Gadeirydd Cyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn 2022/23.

CAEATHRO

Capel

Ar y 19eg Mehefin, bydd Gwasanaeth dan arweiniad Richard Morris Jones i gychwyn am 2.00 PM.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimladau dwysaf i Norman Hughes (Llyn Gele) ac Eirian Griffiths (Annedd) a'u teuluoedd yn dilyn eu profedigaeth o golli eu Mam yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Settatree (Bryn Bela) sydd wedi cael plentyn yn ddiweddar. Mae Andrew Settatree hefyd wedi cael swydd fel gweithiwr gydag ieuenctid a theuluoedd Capeli Presbyteriaidd Bangor, Y Felinheli ac Abergwyngregyn – pob hwyl iddo gyda'r gwaith newydd.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau gwresog i Menna Mai Jones (14 Erw Wen) ar gael ei hethol fel Cynghorydd newydd Ward Y Bontnewydd, yn yr etholiadau diweddar. Rydym yn edrych ymlaen i gefnogi Menna, ac yn dymuno pob lwc iddi gyda'r gwaith newydd!

NANT PERIS

Diwrnod glanhau Mynwent Sant Peris

Dydd Sadwrn, 11eg Mehefin byddwn yn clirio mynwent Eglwys Sant Peris, gan ddechrau am 10.00AM. Bydd paned a bisged ar gael yn yr eglwys yn ystod y dydd. Os fedrwch chi ymuno hefo ni, dewch â phegyn cinio bach, celfi a menig gyda chi. Diolch yn fawr iawn.

Eglwys Sant Peris

Cynhelir gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid bob bore Sul am 9.30AM. Bydd Gwasanaeth Teulu ar ddydd Sul 5ed Mehefin 5 am 4.00PM. Croeso i deuluoedd a phlant ymuno â ni am wasanaeth byr gyda chrefftau a llunïaeth. Hefyd, cynhelir naill ai gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi bob bore Mawrth am 11.00AM.

Tafarn Y Glyntwrog Llanrug

Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol
Bydd croeso cynnes yma bob amser



671191

Diolch

Dymuna Liz ddiolch o galon i bawb am y dymuniadau gorau a dderbyniodd yn dilyn y llawdriniaeth ar ei phen-glin yn ddiweddar. Gyda diolch arbennig i'r staff ar Ward Enlli Ysbyty Gwynedd am eu gofal.

Dymuna Myfanwy Parry, Tawelfa, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu gofal tyner a'u hymholiadau yn ystod ei hanhwylderau diweddar. Mae'n gwerthfawrogi pob dymuniad da, cerdyn ac anrheg ac yn edrych ymlaen at gryfhau er mwyn mwynhau eich cwmni eto'n fuan.

Pwyllgor Neuadd Gymuned

Bu mis Ebrill yn fis o golli anwyliaid i sawl teulu yn y pentref.

Cydymdeimlwn â theulu Arnold a Ffiona a'r teulu yn eu profedigaeth annisgwyl o golli Pat ar y 7fed Ebrill.

Anfonir ein cydymdeimlad dyfnaf â theulu Carrog, Waen yn eu profedigaeth ar 21ain Ebrill o golli Gareth, gŵr cariadus i Margaret, tad gofalus Arwel, Dylan ac Iola, tad-yng-nghyfraith, taid a brawd annwyl.

Hunodd Ella Wyn, Stâd y Rhos, Bethel ar 19eg Ebrill, mam a mam-yng-nghyfraith Siôn a Lowri a merch y diweddar Griff a Bessie Williams, chwaer a chwaer-yng-nghyfraith Maldwyn a Christine a'r teulu a chyfneither agos i Anwen a Dylan Edwin a modryb hoff.

Anfonir ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Dilys Williams, Llys y Gwynt a Mrs Blodwen Mowll, Bryntirion. Rydym mor falch o glywed bod Liz wedi cael ei thriniaeth hir ddisgwyliedig i'w phen-glin ac yn cryfhau'n ddyddiol, gyda gofal tyner Eric a'r teulu, a da deall fod Phyllis a Gwyn yn holliach wedi'r aflwydd Covid-19. Gobeithio y bydd mis

Mehefin yn darogan dyddiau gwell.

Cynhelir Pwyllgor nos Lun, 23ain Mai, 2022 am 7 o'r gloch yn y Neuadd Gymuned.

Pwyllgor Eisteddfod Bentref

Cynhelir Pwyllgor ar nos Lun, 12fed Gorffennaf am 7.00 PM yn yr ysgol gynradd.

Teyrnged i Gareth Williams, Carrog Penisarwaun, 28ain Ebrill 2022

Ganwyd Gareth i Grace Williams a William Meredydd Williams yn Siop Capel Llangristiolus, cyn iddynt symud ychydig lathenni i fyny'r Ffordd i Dŷ Capel Horeb. Mi oedd yna bump o blant i gyd, y diweddar Elwyn, Rhiannon a Gwynfor a Ceinwen.

Fel fi fe gafodd Gareth ei addysg gynradd yn Ysgol Henblas, Llangristiolus o dan law'r prifathro a'r naturiaethwr T G Walker, cyn symud wedyn i ysgol eilradd Llangefni. Nid oedd yn ysgolhaig mwy na finnau, efo'i fryd o adael 'rysgol cyn gynted â phosib i weithio allan yn yr awyr iach. Un swydd fu ganddo ar hyd y blynyddoedd, a dechrau honno bron iawn yn syth ar ôl ymadael o'r ysgol.

Dilyn ei dad wnaeth o, yn ogystal â'i frodyr Elwyn a Gwynfor, efo'r Bwrdd Afonydd, y River Board fel roedd pawb yn ei adnabod. Defnyddio peiriannau i agor ffosydd ac ati oedd ei waith a sglein bob amser ar bob tasg, yn ogystal â'r peiriannau oedd o dan ei ofal. Cafodd ddychafiad, ymhen hir a hwyr, i fod yn Arolygydd dros y Gwaith. Cymrodd ymddeoliad cynnar yn 55 oed a diddori ei hun trwy gadw ychydig o wartheg, defaid ac ychydig o ieir.

Os oedd gan Gareth hobi, trin tractors oedd yn rhoi'r pleser mwyaf iddo. Pan yn fengach, roedd diddordeb hefyd mewn pêl-droed a bu'n chwarae i Tigers Porthaethwy am gyfnod.

Roedd o'n chwaraewr penigamp bryd hynny. Pan oedd y ddau ohonom ni'n blant, cawsom dipyn o hwyl yng nghwmni ein gilydd. Mi fydda Grace Williams, mam Gareth, a fy Mam, yn mynd o gwmpas Llangristiolus i hel bocsys y Genhadaeth am ddwy noson bob gaeaf. Roedd Gareth yn dod efo'i fam, a finnau'n edrych ymlaen at ei weld o, a Rhiannon ei chwaer yn dod i chwarae hefo fy chwaer Sarah. Gareth a finnau yn chwarae 'crab football' ar ein penolau ar lawr y tŷ, wedi gwneud pêl allan o bentwr o sanau. Pharodd y gêm ddim yn hir ar ôl i Gareth gicio'r bel i'r tân a dyna ddiwedd arni!

Tro arall, y ddau ohonom yn penderfynu dilladu'n hunan fel gefeilliaid a mynd i Burtons ym Mangor i fesur am ddwy siwt yr un fath yn union a'n gilydd. I siop arall wedyn i gael crys a thei gul i gyd-fynd, a'i darford hi hefo pâr o sgidia, *Almond toes* - y ffasiwn i hogia ifanc ar y pryd. Dim cweit yn *Tedi Boys* ond meddwl ein bod ni! Ar ôl cael y gêr i gyd at ei gilydd, mynd allan ar nos Sadwrn i Rhyl, meddwl ein bod ni'n *film stars* go iawn a bysa merched wedi mopio'u pennau efo ni! I'r gwrthwyneb mae arna i ofn, wnaeth yr un ferch gymryd sylw ohonom.

Trwy *Blind Date* cyfarfu Gareth efo Margaret, Mags i lawer ohonom ni, a disgynnodd mewn cariad yn syth bin. Priodwyd nhw ar Awst y 3ydd 1963 a chawsant 58 o flynyddoedd hapus iawn yng nghwmni ei gilydd. Byw am ychydig fisoedd yng nghartref oes Margaret sef Meillionydd, cyn symud i 6 Tai Arthur yn Penisarwaun. Yno fydda Gwenda fy ngwraig a finnau yn mynd bob Nos Sadwrn Bach, (Nos Fercher i'r rhai fengaf), a hefyd ar nos Sadwrn am flynyddoedd.

Cafwyd tri o blant, Arwel, Dylan ac Iola a'r wyres Elin Haf a'r ŵyr Siôn Efan yn eu dilyn. Prynu tir wedyn yn y pentre' ac adeiladu

LLANBERIS

Cais am newyddion

Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun neu erthygl i'r Eco, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn, ebost neu alwad personol, drwy'r cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr Eco. Diolch yn fawr.

Etholiad

Hoffwn ddiolch yn anferthol i drigolion Llanberis a Nant Peris ar fy ethol fel Cynghorydd a diolch i Kevin M Jones am ei waith fel Cynghorydd dros y ward ers y pum mlynedd diwethaf. Diolch i bawb a bleidleisiodd dros bwy bynnag a diolch o galon i Dîm Plaid Cymru Arfon am yr holl gefnogaeth.

Rwyf yn edrych ymlaen yn arw am yr her ac mae hi'n fraint cael cynrychioli trigolion Llanberis a Nant Peris ar y Cyngor Sir am y pum mlynedd i ddod.

Diolch.

Cynghorydd Kim Jones.

Eglwys Sant Padarn

Mae arddangosfa o waith Isaac

Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w weld yn yr Eglwys rhwng 10:30 a 2:00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Eglwys Sant Padarn

Gwasanaethau mis Mehefin fel a ganlyn:

5ed Mehefin, 11 o'r gloch - Cymun Bendigaid

12fed Mehefin, 11 o'r gloch - Cymun Bendigaid

19eg Mehefin, 11 o'r gloch - Cymun Bendigaid


26ain Mehefin, 8 o'r gloch - Cymun Bendigaid

11 o'r gloch - Gwasanaeth Teulu. Croeso i deuluoedd a phlant ymuno a ni am wasanaeth byr gyda chrefftau a lluniaeth.

Cynhelir Te Mefus ar brynhawn dydd Gwener 3ydd Mehefin, rhwng 2 a 3:30PM gydag adloniant gan Tim Ward ac Elin Mai Williams yn ystod y te.

Enillwyr Clwb Cant mis Mawrth oedd:

1) Fiona Watkins 2) Linda Williams 3) Hugh Griffiths 4) Mr a Mrs Stan Owen 5) Glenys Jones.



Tybed ydach chi fel minnau a'r gŵr wedi cerdded heibio fferm Cefn Coch yn Neiniolen heb sylwi ar y pulpud awyr agored yma?

O be ddeallwn ni, pulpud oedd hwn at ddefnydd pregethwyr crwydrol, cyn cyfnod y capeli. Gwrthododd y diweddar Dafydd Morris (Cefn Coch) roi caniatâd i'w ddyrchwyl pan roedd y lôn yn cael ei sythu, rai blynyddoedd yn ôl.

Tybed oes gan rywun fwy o hanes y pulpud yma?

Nesta a Tony Elliott

byngalo o'r enw Carrog, ar ôl llecyn bach delfrydol iawn yn Llangristiolus o'r enw Coed Carrog lle fu Gareth yn chwarae droeon yn blentyn.

Pan roedd y ddau ohonom ni wedi priodi ac angen pres, aethom ati i bapuro a pheintio i bobol yn ein hamser rhydd. Y job gyntaf gawsom oedd papuro *breasting* tân cerrig mwyaf di siâp, efo papur oedd yn amlwg wedi costio arian gloywon i'r perchennog. Fi oedd yn papuro a Gareth yn pastio, ond roeddem yn methu'n glir a chael y papur drud ma' i ddisgyn yn syth na gorfedd yn dwt o gwmpas y cerrig. Rhwygodd y papur yn racs a ninnau'n pendroni be i wneud efo'r darn hir drud o bapur. Yn y diwedd, ei dorri yn ei hanner a'r ddau ohonom yn ei stwffio dan ein crysau, past a'r cwbl, a cherdded allan o'r tŷ. Gormod o gywilydd i fynd yn ôl wedyn!

Yr ail job gawsom oedd peintio nenfwd lolfa anferth mewn paent piws tywyll a hwnnw'n baent *gloss*. Angen dwy gôt, a rhaid cyfaddef mi laddodd y job honno ni, a dyna ddiwedd ar y papuro a'r peintio.

Roedd Gareth wrth ei fodd yn cael sgwrs, hoffai fynd am beint, ond hoffai'n fwy na dim, y gwmniaeth gawsai a'r sgwrsio difyr efo llawer o'i ffrindiau. Gwariai sawl awr yn ymgomio dros y giât lân efo llawer un oedd yn pasio heibio. Byddai sglein bob amser ar Gareth, hyd yn oed pe bai o mond yn picio draw i nôl rhywbeth, roedd rhaid cael shêf a thei.

Mags, gobeithio gwneith Duw roi i ti a dy deulu cariadus, ei nerth a chariad i symud ymlaen yn y gobaith y daw, unwaith eto, lafn o haul i dy fywyd yn yr wythnosau a'r misoedd i ddod.

Medwyn Williams (y garddwyr)

Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd

Yn dilyn cyfarfod o Bwyllgor yr Eisteddfod Bentref, cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus ar 12fed Gorffennaf am 7.30 PM i drafod codi arian tuag at yr Eisteddfod ym Mhwlheli yn 2023. Erfyniwn am eich cefnogaeth arferol.

Eglwys Santes Helen Gwasanaethau y Sul

Cynhelir Gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid pob dydd Sul am 11.00 AM. Estynnir croeso cynnes i bawb.

Dathlu can mlynedd

Cynhelir gwasanaeth arbennig i ddathlu 100 mlynedd ers sefydlu Plwyf Penisarwaun yn dilyn datgysylltiad yr Eglwys a sefydlu yr Eglwys yn Nghymru. (Y Plwyf cyntaf i'w sefydlu neu un ohonynt). Fe gynhelir y gwasanaeth prynhawn Sul 5ed Mehefin, Sulgwyn am 5.30 PM. Y pregethwr gwadd fydd Y Gwir Barchedig Andrew John, Archesgob Cymru. Croeso cynnes i bawb ymuno a ni yn y dathliad arbennig yma, fe bydd lluniaeth ysgafn ar gael yn Neuadd yr Eglwys am 4.30 PM.

Cronfa'r Fynwent

Fe dderbynwyd y rhoddion canlynol yn ddiolchgar tuag at gronfa cynnal a chadw'r fynwent.

- £30 Er cof am Mr a Mrs John Pleming, Deiniolen Gynt
- £20 Hugh a Nerys Glan Seiont, Caernarfon
- £30 Er cof am Richard W Evans, Gwyneth Evans a Dilys Morris gan Mair a dennis Davies, Tregarth
- £10 Mr S Roberts, 2 Lôn Ty Gwyn, Caernarfon

Bingo Arian

Fe gynhelir y Bingo Arian yn Neuadd yr Eglwys pob nos Fercher am 7.00 PM

Apêl Cymorth Cristnogol Wcráin

Agorwyd yr Eglwys i gofio a gweddio dros pobl Wcráin Nos Sul 24ain Ebrill o 6.00PM – 8.30PM. Goleuwyd tu fewn i'r Eglwys gyda lliwiau baner Wcráin a chasglwyd £150 at gronfa Apêl Cymorth Cristnogol Wcráin, diolch i bawb a gefnogodd y noson.



Un funud fach ...
YR ARGLWYDD BYW



A derbyn bod yna rywrai'n ddigon caredig i ddarllen y golofn hon bob mis, does wybod pryd y byddwch yn gwneud hynny. Gall ddibynnu ar bryd y bydd un o ddosbarthwyr cymwynasgar yr *Eco* wedi danfon eich copi atoch neu pryd y byddwch wedi ei brynu mewn siop leol. Wedi i chi gael y papur, mae'n bosib yr aiff diwrnod neu ddau heibio cyn i chi fynd ati i'w ddarllen. Wedi'r cwbl, mae gynnoch chi fis cyfan i wneud hynny wrth eich hamdden cyn gwêl y rhifyn nesaf olau dydd. Ond dychmygwch eich bod yn un o'r bobl sy'n darllen y geiriau hyn y noson yr oedd y rhifyn hwn i ddod o'r wasg, Mai 27ain. Ia, dychmygwch hynny er mwyn i mi gael gofyn cwestiwn i chi: 'Pa ddiwrnod oedd hi ddoe?'

Ddoe, meddwch chi, oedd Mai 26ain. Ond nid y dyddiad sydd dan sylw. 'Pa ddiwrnod oedd hi ddoe?' meddaf eto. Os yw heddiw, Mai 27ain, yn ddydd Gwener, dydd lau

oedd hi ddoe. 'A pha ddydd lau?' Dydd lau Dyrchafael. Gallaf ddychmygu ambell un yn gofyn, 'Dydd lau beth ddwedoch chi?'

Dydd lau Dyrchafael ydi'r dydd y mae'r Eglwys Gristnogol yn cofio'r hyn a ddigwyddodd i Iesu Grist ddeugain niwrnod wedi iddo atgyfodi. Nid bod pob eglwys na phob Cristion yn 'cofio'. Mae ambell enwad a thraddodiad Cristnogol yn rhoi mwy o sylw nag eraill i'r 'Dyrchafael'. A chan nad oes ddyddiad sefydlog i'r Dydd, mae'n bosibl iddo fynd heibio heb i ambell un a fyddai am ei ddathlu sylwi. Mae'n sicr wedi mynd heibio lawer blwyddyn heb i mi gofio amdano.

A beth yn union ddigwyddodd ddeugain niwrnod wedi Sul y Pasg? Mae'r hanes yn adnodaol olaf efengylau Luc a Marc ac ym mhennod gyntaf Llyfr yr Actau: dyrchafwyd Iesu Grist oddi ar y ddaear yng ngŵydd ei ddisgyblion, a diflannodd o'u golwg. 'Fe'i dyrchafwyd, a chipiodd cwmwl ef o'u golwg'

(Actau 1:9). Gelwir y diwrnod hefyd, 'Dydd yr Esgyniad', am mai esgyn i'r nefoedd a wnaeth Iesu.

Mae'r diffyg sylw i'r diwrnod wedi gwneud i'r digwyddiad rhyfeddol fynd yn ddieithr, os nad yn gwbl angof, i lawer o bobl hyd yn oed yn ein capeli a'n heglwysi. Ac felly, dyma ddal ar gyfle i dynnu'ch sylw ato. Rwy'n credu fod Iesu wedi dod o farw'n fyw. Rwy'n credu iddo fynd a dod ymhlith ei ddisgyblion yn ystod y deugain niwrnod nesaf. Ac rwy'n credu iddo gael ei godi oddi ar y ddaear a diflannu o olwg y disgyblion mewn cwmwl. Cyfuniad o'r llythrennol a'r ffigirol oedd yr hyn a ddigwyddodd. Codwyd Iesu cyn uched â chymylau'r awyr, yn llythrennol felly. Ond nid yw credu hynny'n golygu fy mod i na neb arall yn credu ei fod wedi dal i fynd – i fyny ac i fyny fel roced – nes cyrraedd y nefoedd. Do, codwyd Iesu; ond arwydd oedd y codi llythrennol hwnnw o'r ffaith fod Iesu Grist yn cael ei ddyrchafu neu ei symud i'r nefoedd, gan ddychwelyd o'r byd daearol a phresennol i'r byd nefol a thragwyddol. Ac wrth gofio'r Dyrchafael, dathlwn y ffaith mai Iesu yw'r Arglwydd Byw a addolir gan ei bobl, yma ar y ddaear ac yn y nefoedd.

JOHN PRITCHARD

Taith addysgol

Braf oedd cael mynd ar daith addysgol unwaith eto yn ddiweddar. Cafodd disgyblion yr Adran Iau ymweld â'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis lle cawsant brofiad o wneud gwaith clymu a lliwio (tie and die). Cawsant daith o gwmpas y ffowndri a dysgu am y gwaith a wnaethpwyd yno hyd at y cyfnod y caeodd y chwarel. Yn ogystal, trefnodd yr amgueddfa bod artist yn ymweld â'r ysgol i weithio gyda'r disgyblion i greu baneri i ddathlu hanner can mlynedd ers i'r amgueddfa agor yn y Gilfach Ddu. Diolch yn fawr iddynt am y profiadau.



Ymweliad Swyddog o Gyngor Gwynedd

Fel rhan o Thema Arbed, Ailgylchu ac Ail-ddefnyddio, daeth Gwenllian o adran ailgylchu Cyngor Gwynedd i'n gweld yn y Cyfnod Sylfaen. Cawsom ddysgu am y gwahanol bethau sy'n bosibl i ni eu hailgylchu a pham ei bod yn bwysig i ni ailgylchu er mwyn edrych ar ôl y blaned. Diolch i ti Gwenllian am ddod i'n gweld!



Ymweliad Cwmni Mewn Cymeriad

Yn ystod y mis cafwyd gweithdy rhyngweithiol yn yr ysgol gyda'r Cwmni 'Mewn Cymeriad'. 10 Stori o Hanes Cymru oedd y thema y tro hwn. Cafwyd bore diddorol iawn a'r disgyblion wedi mwynhau dysgu am ein hanes.

Ymweliad Susan Williams (Cynllun Efe)

Bydd Susan Williams yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i gyflwyno'r efengyl i blant bro'r Eco. Pleser mawr yw ei chroesawu pob amser. Daeth wedi ei gwisgo fel y Canwriad oedd gyda'r Iesu wrth y groes y tro hwn. Cafwyd gwasanaeth diddorol iawn a'r plant wedi mwynhau fel arfer. Diolch yn fawr iddi am ei gwasanaeth bob amser.



ECO'r Wyddfa

**Hoffech chi
hysbysebu eich
busnes yma?**

Cysylltwch
â'n Trefnydd
Hysbysebion a
Dosbarthu

Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com

Caban Pentra'!

25 MLYNEDD O BRYDLES WEDI'U HARWYDDO I DDATBLYGU CABAN PENTRA'

Y bwriad yw creu Caban Pentra' gan uwchraddio gofod nad yw'n cael ei ddefnyddio yn ysgol Gwaun Gynfi a chreu lle i'r gymuned gyfan yn Ward Deiniolen.

Bydd y gofod yn cynnig cyfleoedd i bawb o'r gymuned i gymdeithasu, dysgu a datblygu sgiliau newydd, a hynny yng nghalon y ward – sef yr ysgol.

Hwn yw'r cam cyntaf i

sicrhau bod y Caban yn cael ei atgyweirio a'i ddatblygu. Mae'r prosiect yn rhan o raglen Dyfodol Gwledig, ac yn derbyn cefnogaeth gan Gyngor Gwynedd. Rydym ni wedi derbyn arian gan y Loteri yn barod ac am fod yn ceisio am fwy o bres yn fuan.

Hoffech chi fod yn rhan o'r grŵp datblygu? Rydym yn chwilio am ragor o bobl o'r gymuned i ymuno â ni.

Cysylltwch â'r cynghorydd Elfed Williams am fwy o wybodaeth.

Neges gan y Cynghorydd Elfed Williams.

Diolch yn fawr am y gefnogaeth rwyf wedi ei dderbyn yn y 10 mlynedd diwethaf.

Rwyf yn barod i wneud y swydd yn llawn amser eto, ac i wneud fy ngorau i bobl Deiniolen, Dinorwig, Clwt y Bont a'r Fachwen.

Merched y Wawr

Roedd aelodau'r gangen yn Neiniolen yn falch iawn o fedru cyfarfod ei gilydd unwaith eto ym mis Chwefror eleni ar ôl cyfnod hir ac ynysig! Roedd croeso cynnes yn aros yr awdures Marlyn Samuel pan ddaeth atom yn Nhŷ Elidir i roi sgwrs yn y cyfarfod hwn. Roedd ei hanes hi a'i thaith fel awdures

yn ddiddorol iawn. Soniodd am gefndir ei chymeriadau a sut mae'n cael ei syniadau am storïau (mae eistedd yn yr haul a gwyllo pobl pan fydd ar ei gwyliau yn fan cychwyn da, medda hi!), ac yn datblygu'r cymeriadau a'r syniadau mewn nofelau gafaelgar a digri. Mae ei llyfrau yn boblogaidd iawn ymhlith Merched y Wawr ac yn ehangach.

Ar nos Wener, yng nghanol mis Mawrth cawsom ein Swper i ddathlu Gŵyl Ddewi yn nhafarn y Gardd Fôn, y Felinheli. Mwynhaodd y cwmni'r pryd hyfryd oddi ar fwydlen helaeth oedd yn cynnwys cawl a chig oen Cymreig. Gwerthfawroga'r aelodau y gwaith trefnu trylwyr gan Jackie, Beran,

Cylch Meithrin Deiniolen

Diolch o galon i'r pentref a'r mudiadau am eu rhoddion dros gyfnod o amser sydd wedi galluogi'r Cylch i brynu wal ddŵr i'r plant sy'n mynychu'r Cylch gael mwynhau.



fel arfer.

Nos Lun, 25ain o Ebrill

cawsom gwmni Owena R Hughes o Gaernarfon, ddaeth â llawer o gwiltiau a grewyd ganddi i'w harddangos. Mae ei chreffftwaith yn anhygoel, ac roedd clywed yr hanes o brynu defnyddiau gwahanol, themâu'r gwahanol gwiltiau, a chip ar y stori sy'n cyd-fynd â phob cwilt a phob gwaith gwehyddu cywrair yn hynod ddiddorol.

Yn olaf, cyn ein gwibdaith haf ym mis Mehefin, cawsom gwmni Menna Gilbert, **nos Lun, 16eg Mai**. Roedd Menna yn dangos ac yn sôn am rai o'r ffrogiau y mae wedi eu casglu dros nifer o flynyddoedd.

Does neb yn gallu mynd i Wyl y Pum Rhanbarth eleni yn ardal Dinas Mawddwy. Diolch yn fawr i Beryl Owen am ei gwaith fel Ysgrifennydd y gangen ac i Marian Williams y Cadeirydd dros y flwyddyn a aeth heibio.

DODREFN A LLORIAU PERKINS

●●● 01286 673535 ●●●

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AG

BRYNREFAIL

Sefydliad y Merched

Yng nghyfarfod Ebrill, diolchwyd i Pat Parry am gadeirio'r noson yn absenoldeb ein llywydd Pat Jones, oedd yn disgwyl llawdriniaeth.

Trist iawn i'r gangen oedd colli Shirley Davies o'n plith. Roedd mor barod ei chyfraniad i bob gweithgaredd, a hynny mewn ysbryd llawen.

Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu a'i ffrindiau oll yn eu profedigaeth.

Yn dilyn trafod llythyr y mis a chynllunio gweithgareddau ar gyfer y misoedd nesaf, cawsom fynd ymlaen i chwarae'r gêm Boccia dan arweiniad Carol Houston.

Bydd Sefydliad Brynrefail yn cynnal Gwerthiant Creffttau yn y Ganolfan Llanberis ar 23ain Gorffennaf. Gwahoddir unrhyw un a ddymuna gael bwrdd i werthu eu cynnyrch am y gost o £10 i gysylltu â Carol Houston 07867 630730/ e-bost: houston336@btinternet.com neu Pat Jones 07881 960558 e-bost: cae.coch@btinternet

E. W. PRITCHARD

Trefnwyr Angladdau

62 STRYD FAWR, LLANBERIS

FFÔN - (01286) 870202

ADVANCED
VEHICLE
WORKSHOP

Arbenigwyr mewn ceir VW
Audi, Seast, Skoda a Porche
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975
01286 673559
Parth 2, Stad Ddiwidiannol Cibyn, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

BOSCH
Service

10

DINORWIG

Enwau tai

Diolch i Ann (yn rhifyn diwethaf yr 'Eco') am ein hatgoffa o enwau tai'r ardal yn yr hen amser. Mae rhai ohonynt yn bodoli heddiw, ond yn aml gyda dieithriaid o Saeson yn byw ynddynt erbyn hyn. Dyma rai sy'n aros yn fy nghof innau: o Dy'n y Fawnog i fyny Lôn Giarat i Braich; o Dy'n y Fawnog i lawr i Dyddyn Bach a Bethlemwth. O'r Gegin, a rhwng Penrallt Uchaf mae hen Stad Y Fachwen wedi ei chladdu o dan rwbwl y chwarel. Credaf fod o leiaf dau o dai wedi eu claddu yno, ond nid oes cof genyf o'u henwau. Mae dwy siop yn aros yn y cof. Siop Catrin, lle gellid prynu amrywiaeth o nwyddau o baraffin i fara – a doedd dim sôn am olchi dwylo os oedd y ddau'n cael eu trin yr un pryd! Roedd y da-da yn cael ei gadw yn y siambar. Siop arall oedd Cwt Morris, lle'r oedd y dynion hefyd yn cael torri eu gwallt a'u shefio. Yma roedd 'Senedd' y pentref a phob hynt a helynt yn cael ei drin a'i drafod.

Capel

Roedd newid amseroedd y gwasanaethau yn Nhŷ Elidir, Deiniolen wedi creu peth dryswch, gydag ambell un yn cyrraedd ar gyfer oedfa 3.30 ac eraill am 5.00. Y bwriad bellach yw cyhoeddi'r amseroedd yng nghylchgrawn Gronyn ac yn yr Eco. Dyma'r oedfaon am fisoedd Mehefin a Gorffennaf:

Mehefin y 5ed am 3.30 PM - Y Parch John Pritchard.
Mehefin y 12fed am 3.30 PM - Y Parch Reuben Roberts.
Mehefin y 19eg am 3.30 PM - Y Parch John Pritchard.
Mehefin y 26ain am 3.30 PM - Oedfa.
Gorffennaf y 3ydd am 3.30 PM - Y Gweinidog.
Gorffennaf y 10fed am 5.00 PM - Y Parch Gerallt Edwards.

Yr Allt Ddu

Mae'r ardal hon yn edrych ar ei gorau ar hyn o bryd gyda phopeth yn llawn blodau, a mwy a mwy yn tyrru yma. Er bod gweithwyr

Cyngor Gwynedd yn ymdrechu i gadw'r lle yn daclus, mae rhyw lanastr i'w weld yma'n ddyddiol. Anodd credu fod rhai ymwelwyr yn methu clirio sbwriel ar eu hôl. Mae ambell un yn cyrraedd yma'n fore iawn ac eraill yn aros dros nos. Mae'r drafnidiaeth yn cynyddu, ac yn anffodus, nid yw pawb yn sylweddoli pa mor gul yw'r ffordd, ac yn gyrru yn rhy gyflym o lawer.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd neu'n cael arhosiad yn yr ysbyty. Brysiwch wella gan fod y gwanwyn wedi bod ar ei orau, a'r gwenoliaid a'r gog wedi cyrraedd unwaith yn rhagor. Does ond gobeithio y bydd y tywydd yn cynhesu ac y cawn fwy o heulwen dros yr wythnosau i ddod.

Adnabod Dinorwig ar droed

Oes gennych ddiddordeb mewn dod ar daith gerdded 5 milltir o gwmpas Dinorwig? Cyfle arbennig i ddod i nabod yr ardal ar droed a dysgu am rannau diddorol a hanesyddol ar y daith. Er mwyn sicrhau diogelwch bydd angen cyfyngu'r niferoedd i 10. Cyntaf i'r felin ydy hi, felly anfonwch air i tomos882@btinternet.com. Mi wna i wedyn gadarnhau os oes lle i chi ar y daith. £10 fydd y pris i bob unigolyn gyda'r arian yn mynd at gronfa Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023.

Bore dydd Gwener – 17eg Mehefin, 2022

Cychwyn: 10.00AM yn Allt Ddu, Dinorwig (ceisiwch rannu car os yn bosibl).

Hyd y daith: Ychydig llai na 5 milltir.

Amser: 10.00AM tan 3.00PM.

Natur y daith: Llwybrau rhwydd dan draed ac ambell i allt serth. Bydd angen esgidiau cerdded addas.

Mi fydd cyfle i aros i gael cinio ac felly croeso i ddod â brechdanau a diod efo chi.

Edrych ymlaen at glywed gennych.

CWM-Y-GLO

Eisteddfod Genedlaethol 2023

Digwyddiadau ym mis Mehefin a mis Gorffennaf

Mae cyfres o ddigwyddiadau wedi eu trefnu ar gyfer Mehefin a Gorffennaf; bydd yr elw o'r digwyddiadau hyn yn mynd at Gronfa Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, 2023.

Mae rhagor o fanylion i'w gweld o dan 'Newyddion Llanrug', a chofiwch ddilyn tudalen cymunedol Llanrug – Llanrug Ddoe a Heddiw ar Gweplyfr am fwy o hanes digwyddiadau.

CHWILAIR MIS MEHEFIN - BLODAU GWYLLT

B	L	O	D	Y	N	Y	G	W	Y	N	T
R	A	N	A	W	H	Ch	D	F	E	Ff	S
I	T	P	U	S	Th	Y	A	I	B	C	T
A	E	I	D	U	G	S	N	O	Dd	L	C
Ll	G	D	E	R	W	G	T	L	Y	Y	L
U	E	Y	L	A	Y	A	Y	E	D	Ch	U
W	I	N	A	N	Dd	Ll	Ll	D	Y	A	S
A	R	Y	G	Y	F	N	E	M	D	U	T
R	I	G	N	C	I	A	W	Y	A	R	Y
Dd	A	O	E	O	D	G	U	R	G	G	G
F	N	G	P	E	L	T	S	E	Y	O	A
Ll	Y	G	A	D	E	B	R	I	Ll	G	Th

BLODYN Y GWYNT
BRIALLU
CLUST Y GATH
CLYCHAU'R GOG
DANT Y LLEW

FIOLED
GRUG
GWYDDFID
LLYGAD EBRILL
LLYGAD Y DYDD

PENGALED
PIDYN Y GOG
SURAN Y COED
TEGEIRIAN
YSGALL

Cofiwch bod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg, sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.

Ydach chi'n gallu adnabod pob un o'r blodau gwyllt sydd yn ein Chwilair y mis hwn?

Enw arall gen i ar Glychau'r Gog yw Bwtsias y Gog. Oes ganddoch chi enwau gwahanol ar rai o'r blodau sydd yn y Chwilair y mis hwn? Beth am gysylltu i rannu eich gwybodaeth efo'r darllenwyr?

ATEBION I CHWILAIR MIS MAI - ETHOLIAD

Y	F	Y	U	R	T	S	E	R	F	O	C
Ff	M	M	M	T	C	U	Th	D	D	Ng	A
C	R	G	Dd	N	D	N	O	O	U	H	N
A	Y	Y	E	A	Ch	B	L	N	A	I	F
N	W	R	M	I	Ll	M	W	Ff	I	L	A
L	F	Ch	N	S	S	W	Y	A	D	P	S
Y	I	W	P	A	O	Y	R	R	I	O	I
N	Rh	Y	R	S	Ph	A	Dd	G	E	S	O
I	T	R	U	W	Y	F	B	R	L	T	Th
A	P	O	S	T	E	R	I	A	P	C	D
D	S	I	A	L	D	I	E	L	P	O	E
J	G	O	R	S	A	F	Ll	N	M	S	Y

ASIAINT
ARGRAFFNOD
CANFASIO
CANLYNIAD
COFRESTRU

ETHOLWYR
GORSAF
MWYAFRIF
PLEIDIAU
PLEIDLAIS

POST
POSTERI
RHIFWYR
YMGEISYDD
YMGYRCHWYR

BETHEL A SEION

Cydymdeimlad

Unwaith eto'r mis yma rydym yn cydymdeimlo'n ddwys gydag Emyr ac Anita Owen, Dryslwyn, a'r teulu wedi marwolaeth Alun, brawd Emyr draw yng nghyffiniau Dinas Mawddwy.

Yr un modd gyda Siôn a theulu'r diweddar Ella Roberts, Stad y Rhos. Bu Ella am sawl blwyddyn yn athrawes gydwybodol yn Ysgol yr Hendre, Caernarfon.

O fewn deg wythnos o golli ei gŵr, Ronnie Hughes, Pennant, Seion bu farw Gwenda Hughes yng Nghartref Preswyl Willow Hall, Caernarfon. Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys gyda Bryn, Dilwyn, Euron a'u teuluoedd. 'Cledd a min yw claddu mam.'

Wedi brwydr ddewr, trist yw cyhoeddi marwolaeth David Peters, Stad Cremlyn ac yntau ond yn 40 oed. Bydd llawer yn ei gofio fel pêl-droediwr addawol iawn yn ei ieuenctid. Cydymdeimlwn yn ddiffuant gyda'i fam Alys, ei frawd Richard a'i chwaer Rachel.

Llongyfarchiadau

Dymuna Gweno, Mari a Meinir a'u teuluoedd ddanfon eu cyfarchion a diolchiadau i'w rhieni, Bet a Seiriol Owen, Crud yr Awel, Stad Tan y Ffordd, ar ddathlu pen-blwydd priodas ddiemwnt (60 mlynedd) ar 12fed Mai. Fel cerddwyr selog, rwy'n siwr fod y ddau wedi edrych yn ôl ar sawl digwyddiad ar y daith briodasol hon. Yr un ein llongyfarchiadau ni fel ardalwyr.

Yr un dymuniad o longyfarch i Gwynfor ac Ellen Ellis, Stad Rhoslan ar ddathliad pen-blwydd priodas aur (50 mlynedd) ganol Mai. "Gwn ei ddyfod mis y mêl".

Dymuniadau

Mae ambell un yn y pentref yn dal i gwyno yn sgil 'cynffon' y Covid-19. Dymunwn y gorau iddynt, ac yn gyffredinol edrychwn ymlaen at ail-gychwyn ac ail-gyfarfod rhai o fudiadau'r pentref. Dymuniadau gorau hefyd i Philip Druce, Stad Tan y Ffordd. Gwelwn eisiau ei ffyddlondeb yn y Cysegr.

O'r Cyngor Cymuned

Roedd cyfarfod Mai hefyd yn Gyfarfod Blynyddol

y Cyngor. Braf datgan fod y pedwar cynghorydd dros ward Bethel/Seion yn aros yn eu swyddi. Y Cyng. Jane Pierce, Fferm Tŷ Mawr fydd Is-gadeirydd y cyngor am y tymor cyfredol, ac felly gobeithio yn derbyn y Gadeiryddiaeth y flwyddyn nesaf. Bydd y pedwar hefyd yn eistedd ar Is-Bwyllgorau'r Cyngor. Yn y flwyddyn nesaf un o'r prif faterion fydd rhoddi sylw i gyflwr rhai o lwybrau'r plwyf. Gyda milltiroedd o lwybrau yn y plwyf rhaid oedd blaenoriaethu, ac mae rhai o'r llwybrau a benodwyd yn ein ward ni. Derbyniwyd adroddiad gan Gwyn Evans o'r adran berthnasol yn y Cyngor Sir wedi ei ymweliad ag ardal Bethel/Seion yn ddiweddar.

Gobeithir cydweithio gyda'r Cyngor Sir i wella cyflwr rhan o'r llwybr sy'n arwain o Fryn Pistyll i gyfeiriad Seion. Yr un modd y llwybr gyferbyn â Chremlyn yn arwain drwy dir Llwyn Bedw. Llwybr arall gaiff sylw yw'r llwybr sy'n arwain yn gyfochrog â'r hen lein chwarel tu cefn i Gapel Cysegr. Gan fod 'ffin' weiren wedi ei gosod yna mae rhai o'r crawiau bellach yn rhydd ac yn gorwyo dros y llwybr. Hefyd ceir gor-dyfiant yno.

Bu cryn drafodaeth ar gyflwr y llwybr sy'n arwain o gefn y cae pêl-droed ac yn arwain yn y pen draw at lôn Cae Metta. Mae cyflwr rhan uchaf y llwybr yma yn druenus. Bydd angen cyswllt â'r Cyngor Sir gogyfer â'r llwybr poblogaidd yma ar un adeg. Ar hyn o bryd mae cryn wlypder a gor-dyfiant yn creu problem. Yn amlwg bydd rhaid edrych ar atebion posibl i oresgyn y broblem ac ystyried hefyd y gost lliniaru tu fewn i gyllideb y cyngor.

Mae'n ymddangos fod gosod yr hysbysfyrddau yn y pentrefi wedi derbyn ymateb ffafriol. Cofiwch gysylltu gydag un o'r cyngorwyr os ydych fel unigolyn neu fudiad eisiau cynnwys unrhyw hysbyseb arnynt.

Merched y Wawr

Oherwydd dyddiad derbyn cynnar mis diwethaf crynhoir adroddiad cyfarfodydd Ebrill a Mai y tro yma.

Mis Ebrill

Croesawyd pawb gan Anne Elis ein Llywydd a llongyfarch Anita Owen am ddod yn nain unwaith eto i Eban Emyr a Mabon Meilyr. Dymunwyd yn dda i Anwylyd yn ei chartref newydd ym Mhenrhos, Bangor. Diolchwyd i bawb a gyfranodd i lwyddiant bore coffi Gŵyl Ddewi. Roedd llawer

Etholiad Cyngor Sir

Bu hon yn etholiad hanesyddol ar sawl ystyr. Am y tro cyntaf roeddem yn ethol dau gynghorydd i gynrychioli ward newydd undebol Bethel a'r Felinheli. Tri oedd yn y ras, ac etholwyd dau yn sefyll yn enw Plaid Cymru, ac yn gyfleus iawn un o Fethel ac un o'r Felinheli – Sasha Williams ac Iwan Huws. Dyma'r ferch gyntaf i gynrychioli Bethel yn Neuadd y Sir, ac 'efallai' yr ifancaf hefyd. Mae'n gwestiwn hefyd os oes unrhyw gynghorydd o Fethel wedi derbyn pleidlais o 1000+. Yn amlwg roedd y raddfa a bleidleisiodd ynghyd â'r pleidleisiau post yn uchel yma ym Methel. Diddorol fuasai gwychod

wedi gwerthfawrogi'r cyfle i gymdeithasu wedi'r cyfnod llwm ar wahân. O'r £320 a wnaed drwy'r raffl, penderfynwyd cyfrannu £220 i gronfa'r ysgol, a £100 i Adran Bentref yr Urdd.

Trafodwyd hefyd y gwyliau cenedlaethol – Gŵyl y Pum Rhanbarth, Gŵyl Haf a'r Chwaraeon ym Machynlleth. Casglwyd enwau am y Cardiau Nadolig, y cardiau cyfarch, a'r dyddiadur erbyn y flwyddyn nesaf.

Ein gwraig wadd oedd Wendy Ostler, un a fu yn weithgar iawn yn y pentref ers blynyddoedd yn enwedig gyda gweithgareddau'r ysgol a'r Urdd.

Mae'n hyfforddi ioga ers sawl blwyddyn a chawsom orig o weithgareddau ioga wrth eistedd mewn cadair. Cawsom ddigon o hwyl a chwerthin yn dilyn y symudiadau a phawb yn amlwg wedi mwynhau.

Gan fod nifer dda o aelodau yn bresennol, penderfynwyd ethol swyddogion a phwyllgor gogyfer â'r tymor nesaf. Wedi'r bleidlais etholwyd y canlynol:

- Llywydd: Mair Price
- Is-lywydd: Jen Roberts
- Ysgrifennydd: Gwenan Roberts
- Is-ysgrifennydd: Mair Read
- Trysorydd: Eirlys Williams
- Is-drysorydd: Anita Owen
- Aelodau'r Pwyllgor: Falmai, Lynwen, Nora, Rhian, Mair Williams ac Eleri Warrington.
- Diolch iddynt i gyd am wirfoddoli gogyfer â'r swyddi.



Taith i bawb



Mae cangen Merched y Wawr yn trefnu taith i Lerpwl gan alw yn Port Sunlight, taith ar y gwch drosodd i Lerpwl ac amser i siopa

Dydd Mercher
Mehefin 8fed
Cychwyn am 9.30

Mae'r daith am ddim i unrhyw un o'r pentref felly cyntaf i'r felin !!!!!

I archebu lle cysylltwch a Liz Watkin ar
0124871243 neu 07799026791
neu ar watkin495@btinternet.com

Noddir gan





Taith gerdded Merched y Wawr Bethel

faint o ieuenctid 16+ Bethel a dderbyniodd y cyfle am y tro cyntaf i bleidleisio. Mae Sasha wedi ymwneud yn egniol â sawl mudiad yn y pentref yn enwedig ym myd pobl ifanc. Mae hefyd yn Gyngorydd Cymuned ac ar fwrdd llywodraethwr yr Ysgol Gynradd. Mae'r etholwyr wedi dangos eu diolch am hyn ac yn ymddiried ynddi i fod yn llais egniol a chryf dros yr ardal. Yn ddiamheuol mae'r cyfnod presennol yn un heriol mewn sawl maes, yn enwedig ym maes cynllunio a 'datblygiad' Bethel fel cymuned fyw, gynhaliol yn y dyfodol agos. Dymunwn yn dda iddi, a gobeithio fel rydym ni yn disgwyl iddi ein cefnogi ni yng 'nghorodrau grym', yna yn yr un modd y byddwn i yn barod i'w chefnogi hi.

Y peth hawsaf yn y byd yw gweld gwendidau a chwyno.
Mewn datganiad i'r Eco dywedodd Sasha:
"Diolch o waelod calon i bawb aeth i bleidleisio , ac am y geiriau caredig o gefnogaeth. Dwi'n falch iawn o'r cyfle i gael sefyll ac yna fy ethol fel cyngorydd dros ward newydd Bethel/Felinheli. Fy mwriad yw rhoi fy ngorau dros bawb o'r etholwyr. Cefais ddiwrnod o anwytho yn Siambr Dafydd Orwig ddydd Mawrth wedi'r etholiad, ac wythnos nesaf byddaf yn mynychu cyfarfod llawn y Cyngor am y tro cyntaf. Mae amser cyffrous o'm mlaen ac edrychaf ymlaen yn hyderus. Diolch i chwi i gyd."



Mis Mai
Wedi'r ioga mis diwethaf, taith gerdded oedd yn wynebu'r aelodau mis yma. Daeth nifer dda i'r man cychwyn ger Minffordd a cherdded y llwybr troed newydd tuag at Dyddyn Hen. Aeth nifer dda ymlaen oddi yno heibio fferm Crug ac yn ôl i Fethel. Pawb wedyn yn ail gyfarfod yn Perthyn am hanner dydd i gael cinio blasus.
Llongyfarchwyd Bet a Seiriol ar ddathlu pen -blwydd priodas 60 mlynedd ac Ellen a Gwynfor Ellis ar ddathlu eu priodas aur yng nghanol Mai.

Llongyfarchwyd Mary ar ddod yn hen nain unwaith eto i Aaron ac Erin ar enedigaeth Noa Jac.

Dymunwyd yn dda i Gwenllian, wyres Gwyneth, Llain yr Ardd ar achlysur ei phriodas yn ddiweddar.

Mae'r Cyng. Sasha Williams wedi sôn fod nifer â diddordeb ail ddechrau'r Bore Coffi misol. Gofynnwyd i bawb sydd â diddordeb gysylltu gyda Liz Watkin.

Y wibdaith i Lerpwl ar 8fed Mehefin fydd ein cyfarfod olaf o'r flwyddyn. Mae dal ychydig o le ar y bws, ac os oes gennych ddiddordeb dod cysylltwch â Liz Watkin i archebu lle. Mae costau'r dydd yn dod o'r grant gan y Loteri Genedlaethol felly ni fydd angen talu am y bws, y daith ar y cwch i Lerpwl na'r tâl mynediad i'r Oriol yn Port Sunlight.

Y Llinell Las
Bu hon yn gyfres boblogaidd iawn ar S4C yn

ddiweddar. Cafwyd cyfle i ddilyn adran 'traffig' Heddlu Gogledd Cymru. Amlygwyd sawl agwedd o'u gwaith, yn enwedig y teimlad 'beth sydd yn ein disgwyl' pan ddaw'r alwad at ddamwain ffordd. Fel yr ydwyf yn ysgrifennu hyn daeth newyddion o ddwy ddamwain ddrwg ger Glasinfryn a Brynrefail yn ein hardal ni yma.
Un o'r heddweision a welwyd yn gyson oedd Robert Williams, un o hogia Seion a mab i Bob Williams, Bryn Glas, Seion.

Clwb Ffermwyr Ifanc
Bu'n gyfnod prysur o baratoi a chystadlu i'n clwb lleol yn arwain at Rali Eryri draw ym Mhen Llŷn ddiwedd y mis. Bydd cryn edrych ymlaen at ganlyniadau'r cystadlu a ddatgelir ar y diwrnod. Bydd llygadu ar gystadleuaeth y Barnu Stoc, o gofio record lewyrchus y clwb yn y gystadleuaeth yma yn y tymhorau diwethaf. Edrychwn ymlaen am adroddiad ar y Rali yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

Oedfaon Mehefin
Fe wnaed trefniadaeth yn ddiweddar ar y cyd rhwng Capel y Cysegr a Chapel y Rhos, Llanrug. Os bydd un o'r capeli â 'Sul gwag' yna bydd y ddau gapel yn cyd-addoli yn y capel arall. O'r berthynas yma felly gellir sicrhau fod oedfa ar gael i'r aelodau.
Cysegr: 5/6 Parch. O.G.Williams, 12/6 Richard Morris Jones, 19/6 Parch. John Pritchard, 26/6 Huw Tegid Roberts (Ymuno yng Nghapel y Rhos).

Saron: 5/6 Islwyn Hughes, 12/6 Parch. Richard Gillion, 19/6 Parch. Philip Barnett, 26/6 Richard Gillion.
Bethel: 5/6 Parch. R.E. Hughes, 12/6 Parch. Cledwyn Williams, 26/6 Parch. J. Gwyndaf Jones.

Noson Egniol
Cafwyd cyfle i roddi adeg truenus y Covid-19 i un ochr pan gynhaliwyd noson ddisgo i ddisgyblion yr Ysgol. Diolch i bwyllgor gweithgar y Gymdeithas Rhieni/Athrawon am y trefniadau ac i'r DJ bywiog Owain Llŷr. Ar ddiwedd y noson roedd elw o £463 wedi ei godi tuag at goffrau'r Ysgol.

Datblygiad Perthyn
Mae'n ymddangos fod datblygiad ar droed i ymestyn oriau a defnydd o fwyty Perthyn. Y bwriad yw agor ar gyfer gweithgareddau nosweithiol yno. Dyma gyfle da i 'feithrin' ac ail gydio yn yr elfen gymdeithasol yn y pentref. Wedi trafod gydag Elen, rwyf am geisio ail gyflwyno un o weithgareddau poblogaidd ychydig flynyddoedd yn ôl bellach sef 'Noson Gwis y Bedol'. Bu'r rhain yn rhedeg am bron i bedair blynedd, ac yn cael ei gefnogi gan ein pentrefwyr. Fy mwriad yw ail-gychwyn yr 'adloniant' ym mis Medi, gyda'r elw yn mynd at goffrau Clwb Pêl-droed Ieuenctid Bethel. Mwy o fanylion yn agosach at y dyddiad cychwyn. Dechreuwch astudio holl ffeithiau dibwys Gwybodaeth Gyffredinol!



Tlws Arall
Bu timau pêl-droed dan 6, 7 a 9 Bethel yn cystadlu yn nhwrnament Dyffryn Nantlle yn ddiweddar. Nid oedd y gemau dan 6 a 7 yn 'gystadleuol' gyda thlws i'w hennill, ond mwynhaodd y ddwy garfan y profiad o gymryd rhan, a gwneud joban dda ohoni. Argoeli'n dda am y dyfodol. Cipiodd y tîm dan 9 y Tlws, gan guro eu gemau grŵp ac yna trechu Talysarn yn y rownd gyn-derfynol, a'r Felinheli yn y ffeinal.
Dros gyfnod y Pasg bu'r clwb yn cynnal eu twrnament eu hunain. Yr oedd y meysydd mewn cyflwr da a'r trefniadau yn benigamp, yn enwedig ar gyfer y parcio, a diolch am y caniatad a roddwyd. Yr un

modd y llu o wirfoddolwyr fu'n stiwardio a dyfarnu. Roedd cryn ganmol ar griw'r caffi, y 'lluniaeth ysgafn' ac yn enwedig yr hufen iâ.
Dros y twrnament dau ddiwrnod denwyd 67 tîm a thua 700 o chwaraewyr yn y gwahanol oeddrannau. Cyflwynwyd tlysau a medalau i bob carfan a enillodd eu grŵp oedran. Mae'r Pwyllgor yn hynod ddiolchgar i'r cwmnïau canlynol a fu'n hael eu nawdd tuag at gostau'r tlysau:
Orlik a'i Fab, Removals
Sbarduno, Contractwyr DRW, Ceir RD, Tryfan Cabs, J2O Plumbing, Saeermaen H.T. Foulkes, A.B. Cars.
Yn y llun gwelir timau dan 12 Bethel a Bangor 1876 wedi gêm rownd derfynol gampus.



Ymdrech Hafan Elan i Apêl Wcrâin

Codwyd £500 i'r ymdrech a'i roi i'r Groes Goch. Diolch i bawb am eu cyfraniadau hael ac am brynu y tocynnau raffl. Hefyd, diolch anferth i Cegin Fach Emma a gyfrannodd y bwyd i'r diwrnod.

Eisteddfod Genedlaethol 2023 Digwyddiadau ym mis Mehefin a mis Gorffennaf

Mae cyfres o ddigwyddiadau wedi eu trefnu ar gyfer Mehefin a Gorffennaf; bydd yr elw o'r digwyddiadau hyn yn mynd at Gronfa Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, 2023:

Bore Coffi

Cynhelir bore coffi a byrddau gwerthu yn y Sefydliad Coffa ar ddydd Gwener, 10fed Mehefin, gan rai o aelodau Merched y Wawr, Llanrug i godi arian tuag at gwota Llanrug o £5,000. Bwriedir cael stondinau amrywiol a raffl. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Linda ar 01286 673838 neu Olwen ar 01286 674839. Dewch i fwynhau paned, cacen a sgwrs hwyliog.

Taith Gerdded ar gyfer Pawb o bob oed

Brynhawn Sul, 3ydd Gorffennaf bydd taith gerdded yn cychwyn o gae chwarae Glanmoelyn am 2.00 PM a bydd cyfle i fwynhau a rhyfeddu at hynt a helynt Llanrug ar hyd y canrifoedd a hynny o dan arweiniad Gareth Roberts. Y tâl am ymuno â'r daith fydd £3 y pen gyda phlant o dan 12 oed yn cael ymuno yn ddi-dâl.

Dewch am dro i Ardd Bethanne

Ar ddydd Iau, 14eg Gorffennaf, os bydd y tywydd yn caniatáu, bydd Bethanne Williams, Disgwylfa, Ffordd yr Orsaf yn agor ei gardd ar gyfer ymwelwyr o 10.00 AM hyd at

4.00 PM. Mae gardd Bethanne bob amser yn werth i'w gweld; bydd ar ei gorau ym mis Gorffennaf a bydd cyfle hefyd i chi brynu planhigion i'w plannu yn eich gardd eich hun. Y tâl mynediad fydd £3 y pen. Dewch yn llw a byddwch yn siŵr o gael diwrnod a fydd wrth eich bodd.

Arwerthiant o Ddillad Ail-law

Cynhelir sêl ddillad yn y Sefydliad Coffa ar ddydd Sul, 17eg Gorffennaf o 12.00 PM hyd at 5.00 PM a bydd paned ar gael hefyd. Mae llawer y gallwch ei wneud â dillad ail-law ar wahân i'w gwisgo megis ail-gylchu mewn amryfal ddull a modd. Os oes gennych ddillad i'w rhoi yn y sêl cysylltwch â Donna Taylor ar 07789 738 649 ac mae Donna yn barod i gasglu dillad gennych hefyd. Bydd gwir angen dillad babanod a phlant bach a bydd croeso i ddillad ar gyfer rhai o bob oed. Bydd yn gyfle hefyd i rai ohonoch ddod a dillad ysgol a chofiwch fod posib cyfnwidd.

Sioe Ddawnsio

Cynhelir sioe ddawnsio yn Theatr Seilo, Caernarfon ar nos Fawrth, 26ain Gorffennaf. Bydd nifer o ferched ifanc ardal Llanrug yn cymryd rhan a bydd cyfran o elw'r noson yn mynd at Gronfa Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023.

Cofiwch ddilyn tudalen cymunedol Llanrug – Llanrug Ddoe a Heddiw ar Gweplyfr am fwy o hanes digwyddiadau.

Diolchiadau

Dymuna Rachel, Min y Rhos, ddiolch o waelod calon i'w theulu a'i ffrindiau am eu caredigrwydd a'u cymwynadau parod yn ystod anhwylustod y chwe mis diwethaf, a'r driniaeth ddiweddar yn Ysbyty Spire Yale, Wrecsam.

Merched y Wawr, Llanrug

Nos Fawrth 12fed Ebrill estynnwyd croeso cynnes i'r sefydliad Coffa (gyda diolch i Swyddogion Capel y Rhos am gael defnyddio'r Capel yn ystod cyfnod yr aflwydd Covid -19), gan Nan, ein Llywydd. Canwyd Cân y Mudiad, gyda Susan ar yr allweddau.

Cydymdeimlwyd â Haf a'r teulu yn eu profedigaeth o golli gŵr a thad annwyl.

Anfonwyd ein cofion at Megan a Myfanwy ac Olwen a Goronwy, gan ddymuno adferiad iechyd buan iddynt ynghyd â Rachel, sydd wedi cael clun newydd.

I ddilyn, trefnwyd gweithgareddau hynod o ddifyr a digon o grafu pen i ddarganfod, 'Bathodynau Pwy neu Beth?' a 'Phwy 'di Pwy?' o'r gangen.

Diolch i Ann Lloyd, Eryl ac Avril am y baned a theisen i bawb i ddathlu dod yn ôl i'r Sefydliad.

Ar 10fed Mai, mis y Cyfarfod Blyneddol, estynnwyd croeso cynnes i bawb, gan obeithio cael llwyddiant wrth ethol Swyddogion newydd, gyda diolch i'r Swyddogion presennol am y gwaith diflino dros ddwy flynedd heriol. Mawr ddiolch i Olwen, Dosbarthwr y Wawr, i Aelodau'r Pwyllgor; i Ann Lloyd a Jean Roberts, Gohebwy'r Wasg i Ann Lloyd a Jean, Pwyllgor

Crefft. Gwerthfawrogi arweiniad cyfeillgar a phroffesiynol Nan, ein Llywydd, gwaith diflino Pat, ein Trysorydd trefnus ac Avril, yr Is-Drysorydd. Yn bennaf diolchir a gwerthfawrogi llafur caled Bethanne, Ysgrifennydd y gangen – llwyddodd pawb i dderbyn gohebiaeth am gyfarfodydd a chysiau Merched y Wawr. Cyflwynwyd tusw o flodau iddi fel gwerthfawrogiad o'i heffeithiolrwydd.

Diolch i'r rhai fu'n cynrychioli'r Pwyllgorau Rhanbarth amrywiol, rydym yn ymfalchïo yn ein haelodau creadigol fu'n cynrychioli'r gangen yng nghystadlaethau amrywiol Merched y Wawr, gyda Julie, Ann Lloyd a Bethanne a llongyfarchiadau arbennig i Rhiannon ar ddod yn ail drwy Gymru.

Gydag Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd yn cael ei chynnal ym Mhwllheli, Awst 5ed – 12fed, 2023, gosodwyd targed o £5,000 i ardal Llanrug. Cafwyd apêl gan Mary Roberts, cydlynnydd pwyllgor Apêl Llanrug i gynnal gweithgareddau i godi arian yn ystod y pymtheg mis nesaf. Ar ran Pwyllgor Apêl, Llanrug, gofynnwyd yn garedig a fuasai Swyddogion ac Aelodau Merched y Wawr, Llanrug yn rhoi ystyriaeth i gyfrannu at yr ymgyrch



Capel y Rhos

Ar fore Sul y Pasg cafwyd gwasanaeth byr gan aelodau ac wedyn cafwyd paned a chacen gri a sgwrs ymysg ein gilydd.

Yn ystod yr amser hyn cafwyd cyfle i brynu cardiau Miss Haf Thomas (CARDIAU HAF) gyda'r elw i gyd yn mynd at Wcrâin. Bu'r cyfan yn llwyddiant mawr a braf yw gallu cyhoeddi fod £350 wedi ei gasglu gan yr aelodau a £200 arall drwy werthiant cardiau Haf.

Diolch o galon i bawb gefnogodd yr apêl ac yn arbennig i Haf sydd mor barod bob amser i gefnogi achosion da.

yn enw'r gangen. Bu'r ymateb yn ffafriol tu hwnt.

Talwyd sylw i Brosiect ein Llywydd Cenedlaethol, Jill Lewis, sef 'Cerdded Cerdd a chynefin'. Y bwriad yw ymweld a mynd am dro i fwynhau golygfeydd ac adnabod yr ardal. Fel rhan o'r prosiect, chwilio am gerddi addas i gyd-fynd â'r daith. O ran cynefin nodi enwau'r blodau ac adar o fewn ein cynefinoedd. Ar ôl y daith, ymuno i gael paned a gobeithio blasu rhai o ddanteithion ein Bro. Derbynnir syniadau yn ein cyfarfod nesaf.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf ar 14eg Mehefin, pnawn Mawrth, amser cinio yn Y Felin lle cawn gyfle i fwynhau bwffe a chlonc i ddiweddu dwy flynedd heriol ond llwyddiannus. Edrychir ymlaen am flwyddyn gymdeithasol o fis Medi ymlaen.

Mwynhewch fisoedd hir, tesog yr haf.

Eglwys St Mihangel (yn yr Institiwt)

Sul 1af o'r mis am 10.00 y bore - Addoli "cafe". Gwasanaeth anffurfiol ar gyfer pob oedran, gan gynnwys crefft a phaned.

3ydd Sul o'r mis am 10.00 y bore - Cymun Bendigaid.

Dydd Gwener, 3ydd Mehefin - Te Mefus yn Eglwys St Padarn am 2.00 - 3.30 o'r gloch

Dydd Sul, 5ed Mehefin - Gwasanaeth Undebol Bro Eryri yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun yn y prynhawn, gyda'r Archesgob Andy John. Bydd te am 4.30PM a'r Gwasanaeth am 5.30PM. Mae'r te yn de "dewch a rhannu", felly dewch â phlatiad o fwyd i'w rannu, os gwelwch yn dda.

Mae'r gwasanaeth hwn yn dathlu canmlwyddiant ffurfio'r plwyf cyntaf Cymreig ar ôl y dadsefydlu oddi wrth Eglwys Lloegr.

Gorffennaf 2ail: Mynwent Sant Mihangel. Ymweliad â'r fynwent a'r beddi sydd a hanesion nodedig iddynt. Bydd Mr.Gareth Roberts yn arwain, ac yn egluro llawer o'r ffeithiau diddorol.

Profedigaethau

Yn ystod y mis bu farw Mr Dei Roberts, Glanffynnon, yng ngofal ei deulu yn Llandegfan. Cofiwn atoch yn eich profedigaeth a diolch am y gofal a roddwyd i'ch tad.

Hefyd, yn dilyn cyfnod hir o waeledd, bu farw Mrs Bet Jones, Ffordd Glanffynnon, gweddwr Mr Stan Jones (Y Siop gynt) yn 81 oed. Cydymdeimlwn â'r teulu, hwythau wedi gofalu yn annwyl am eu mam. Colled fawr i chi i gyd.



Llewod Llanrug



Llongyfarchiadau mawr iawn i dîm dan 6 oed Llewod Llanrug am ennill eu cwpan cyntaf yn nhwrnament pêl-droed dan 6 Bethel. Daeth y tîm yn fuddugol heb golli un gêm. Braint oedd gweld y plant yn mwynhau unwaith eto. Diolch i Richie, Tudur a Shaun am roi eu hamser i'r plant.
Emma Smith

Ysgol Dolbadarn

Blwyddyn Derbyn ac 1

Mae Blwyddyn 1 a'r Dosbarth Derbyn wedi bod am dro o gwmpas yr ysgol yn chwilio am arwyddion y gwanwyn.

Mae Blwyddyn 1 a'r Dosbarth Derbyn wedi bod yn chwynnu yn barod i blannu.

Rydym wedi cynnal ymholiad gwyddonol. Beth fyddai yn digwydd i'r blodau? Beth sydd angen ar y blodyn i fyw yn iach?

Rhoddyd blodau mewn dŵr glas, dŵr clir, a dim dŵr.

Cafodd y plant gyfle i ragfynegi, cynnal arbrawf a dod i gasgliad.

Blwyddyn 1 a 2

Daeth aelodau o'r Frigâd Dân leol at flwyddyn 1 a 2 i sôn am eu gwaith ac i ddangos yr Injan dân.

Ymwelodd Jini Me, yr oen bach, yn dilyn ein gwaith ar thema'r 'Gwanwyn'. Cafwyd y cyfle i fwydo ac anwesu'r oen bach.

Blwyddyn 3 a 4

Cafodd disgyblion Blwyddyn 3 a 4 ymweld ag Amgueddfa Lechi Cymru i ddathlu hanner can mlwyddiant yr Amgueddfa.

Mwynhaodd y disgyblion y profiad o weithio gyda swyddogion addysg yr Amgueddfa i greu baneri yn

ôl lliwiau ein gwisg ysgol i ddathlu'r achlysur.

Blwyddyn 5

Cawsom sesiwn celf arbennig gydag Ellen Williams bore Dydd Gwener Ebill 8fed. Mae Eco'r Wyddfa yn dathlu ei 500fed rhifyn ac felly daeth i'r ysgol gyda her i'r dosbarth. Roedd yn rhaid i'r dysgwyr greu dilledyn gan ddefnyddio hen bapurau'r Eco. Cawsom hetiau, sbectol, ffrog, esgidiau, trowsus, ffedog, masg, gemwaith, clustffonau, a llawer mwy. Datblygwyd eu sgiliau cyd-weithio wrth iddynt fynd ati i ddatrys problemau. Roedd eu gwaith yn cael ei arddangos yn yr Amgueddfa dros y Pasg.

Blwyddyn 6

Cafodd dysgwyr blwyddyn 6 gyfle i efelychu a meistrolï technegau crefft goed a ddefnyddiwyd gan filwyr a byddinoedd Llywelyn Fawr yn ystod Oes y Tywysogion er mwyn goroesi. Llwyddodd y dosbarth i ddechrau tân gyda fflint, pobi bara ar dân, cyn paratoi a choginio pryd mewn pair dros y tân.

Roedd cystadlu cyfeillgar rhwng tîm pêl-droed a phêl-rwyd Ysgol Waunfawr ac Ysgol Dolbadarn ar gae'r ddôl. Serch i'r ddwy gêm fod yn hynod agos, llwyddodd Ysgol Dolbadarn i ennill y ddwy o drwch blewyn. Braf oedd gweld ymdrech a chydweithio gwyh y dysgwyr a gymerodd ran yn y gêm.

ESTD 1973

WAVELLS

AWARD WINNING BUTCHERS AND DELI

DELI A CHIGYDD O FRI

Bryn ac Angela Williams

LONDON HOUSE LLANRUG

yr ŵyn lleol mwyaf blasus

selsig cartre

cigoddd parod i'w bwyta

archebion ar gyfer y rhewgist

(01286) 673574

Royal Victoria Hotel LLANBERIS

www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau

Pwyllgorau • Bwydlen Bar

• PRIODASAU •

Ffôn - 01286-870253

enquiries@theroyalvictoria.co.uk

Tapestri Castell Dolbadarn

Yn rhifyn mis Mai gwelwyd llun o Dapestri Castell Dolbadarn o dan newyddion pentref Llanberis. Diolch i Ken Jones am hanes y tapestri a'r Castell fel a ganlyn:

Yn ôl yr hanes, adeiladwyd Castell Dolbadarn yn y flwyddyn 1220 ac ar gyfer dathlu'r wythfed canmlwyddiant yn 2020 cysylltwyd â CADW, perchnogion y castell, am eu cyngor ar gyfer dathlu'r achlysur. Yn dilyn ymweliad â'r castell yn 2018 gan swyddogion CADW cytunwyd mai'r opsiwn gorau oedd creu tapestri yn Y Ganolfan i nodi'r achlysur. Cysylltwyd â'r artist tectsiliau enwog Cefyn Burgess a chyda cymorth a chydweithrediad llawn rhai o ferched y fro a phlant Ysgol Dolbadarn, cychwynwyd ar y gwaith gyda'r bwriad ei gyflawni a'i ddadorchuddio yn 2020. Ond, fel y gwyr pawb, daeth y pandemig a'i anawsterau di-ri i'n rhan a rhaid oedd gohirio'r seremoni hyd at fis Mawrth eleni.

Roedd y dathlu, yn bennaf, yn ymwneud ag adeiladu'r Castell yn hytrach na'r hanes. Codwyd y Castell ar fryn gyda golygfeydd syfrdanol hyd at fwllch Llanberis ac i lawr y dyffryn i gyfeiriad Caernarfon. Defnyddiwyd mân lechi o greigiau cyfagos ar gyfer y gwaith. Nid oes yna unrhyw gyfeiriad yn bodoli ynglŷn â'r sawl a gynlluniodd y gwaith, sydd yn cael ei gydnabod heddiw yn glasurol, a dim ond ychydig o ddifrod sydd wedi digwydd dros y canrifoedd



Tapestri Castell Dolbadarn

er gweathaf y tywydd a'r holl stormydd. Y prif newid sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd ydi creu grisiau cerrig sydd yn arwain at y fynedfa yn lle'r rhai pren gwreiddiol.

Codwyd y Castell yn ystod teyrnasiad Llywelyn Fawr ac fel bron bob castell, mae'r prif hanes yn deillio yn ôl i'r blynyddoedd cynnar. Y prif ddigwyddiad oedd i Llywelyn ap Gruffudd garcharu ei frawd Owain Goch yno am dros ugain mlynedd.

Bron i chwe chan mlynedd yn ddiweddarach daeth ymwelydd go


arbennig arall i Lanberis yn 1798 gan ddychwelyd yn 1799. Y gŵr enwog oedd yr arlunydd Joseph Turner a ddaeth i'r ardal yn ei ugeiniau cynnar.

Ganwyd Joseph Mallord William Turner yn Llundain ar y 23ain Ebrill 1775. Dangosodd ddiddordeb mewn arlunio yn gynnar iawn, a heb os, fe gafodd gefnogaeth fawr gan ei dad wrth ddatblygu ei sgiliau. Roedd teithio o Lundain i Lanberis ym mlynnyddoedd olaf y ddeunawfed ganrif yn heriol, gan fod hyn ymhell cyn dyfodiad y rheilffordd a hyd yn oed ffordd

enwog yr A5. Digon posib ei fod wedi teithio o gyfeiriad Amwythig ar hyd yr hen ffordd cyn belled â Chapel Curig cyn teithio drwy Ddyffryn Mymbyr ac yna dros Fwllch Llanberis ac ymlaen i gyfeiriad safle Castell Dolbadarn. Yn ystod ei ymweliad dim ond ychydig o dydynnod oedd yn Llanberis ar y pryd gan fod rhan fwyaf o'r boblogaeth yn byw yn Nant Uchaf.

Yn ystod ei yrfa teithiodd Turner i bron pob cornel o Brydain er mwyn dilyn ei grefft ac fe beintiodd filoedd o hen gestyll a golygfeydd o bob math. Fel arlunydd, y drefn oedd iddo wneud *braslun* o'i bwnc mewn llyfr poced bychan ac yna peintio'r llun yn ei stiwdio yn Llundain. Wedi ei farwolaeth, pan adawodd ei holl waith i'r wlad yn ei ewyllys, roedd yna dros 350 o lyfrau poced a oedd yn cynnwys ei holl waith wrth deithio trwy Brydain gyfan. Roedd yna enw i bob un o'r llyfrau gan gynnwys y '*Dolbadarn Sketch Book*' a oedd yn llawn o ddarluniadau o ardal dyffryn Peris gyda'r Castell yn ganolbwynt i bob llun. Tra yn yr ardal fe beintiodd bedwar llun gyda'r enwocaf o bell wedi ei enwi yn '*Dolbadarn Castle*' ac wedi ei ddyddio 1799.

Mae'n debyg fod tri o'r lluniau a oedd yn cynnwys golygfeydd mynyddig wedi eu gwneud yn ystod ei ymweliad yn 1798 gyda'r Castell i'w weld mewn dau o'r lluniau. Y tebygrwydd ydy, wedi iddo ddychwelyd i Lundain yn yr



Castell Dolbadarn

I'r Sais, dim ond muriau sydd; - ond i ni
Gwaed ein hil a edrydd
Ein hanes o'r tŵr llonydd,
A'n cof o'r cilfachau cudd.

Tony Elliott

Astudio o adra

Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd Prifysgol Bangor yn hwyluso mynediad i'w chysiau gradd

Ar 14 Mai ac 1 Mehefin, bydd 'boreau coffi' arbennig i bawb sydd erioed wedi meddwl am astudio gradd prifysgol ond a wftiodd y syniad oherwydd amgylchiadau bywyd. I'r rheiny na allant deithio i Fangor, caiff y sesiynau eu ffrydio ar-lein, ar batrwm darpariaeth newydd graddau Adran y Gymraeg.

O fis Medi 2022 ymlaen, bydd cyfle i fyfyrwyr newydd ddilyn talp helaeth o'r cyrsiau MA a BA (Cymraeg a Chymraeg Proffesiynol) ar-lein. Mae Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd yn adeiladu ar brofiadau a enillwyd yn ystod pandemig COVID-19 er mwyn galluogi myfyrwyr newydd i fanteisio ar y ddarpariaeth heb orfod dilyn amserlen gaeth.

Yn ogystal â'r cymorth ariannol sylweddol sydd ar gael i bob myfyriwr, mae'r Adran hefyd yn cynnig nifer o Ysgoloriaethau Technoleg arbennig, i fyfyrwyr gael prynu cyfarpar at ddibenion dilyn gwersi dros y we.

Yn ôl Dr Aled Llion Jones, pennaeth yr Adran: 'Mae hi'n wych o beth bod y myfyrwyr bron i gyd yn ôl ar y campws erbyn hyn, ac edrychwn ymlaen at groesawu myfyrwyr newydd i Fangor bob mis Medi am ddegawdau i ddod. Serch hynny, rydym yn ymwybodol nad pawb sy'n gallu dod i ddarlithoedd a seminarau 'yn y cnawd'. Mae rhai pobl yn ei chael hi'n anodd teithio, ac mae gan eraill ddyletswyddau gwaith neu ddyletswyddau gofalu, er enghraifft.

'Dyna pam rydym wedi penderfynu cynnig ein cyrsiau MA a BA (Cymraeg a Chymraeg Proffesiynol) ar-lein o fis Medi ymlaen: er mwyn i bobl o bob oedran a chefnidir allu manteisio ar ein darpariaeth mewn ffordd sy'n gweithio iddyn nhw, yn llawn amser neu'n rhan amser. Hoffem groesawu myfyrwyr sy'n chwilio am her newydd, pobl sy'n meddwl ailafael yn eu haddysg neu newid cyfeiriad eu gyrfa. Mae'r cwrs BA Cymraeg Proffesiynol yn arbennig o addas i bobl sy'n awyddus i ennill cymwysterau ychwanegol er mwyn datblygu eu gyrfa.'

Mae'r adran wedi cyflogi darlithydd newydd i gynorthwyo gyda'r datblygiad newydd hwn. Bu Dr Elis Dafydd yn fyfyrwr yn yr adran ei hun, ac mae'n edrych ymlaen at y gwaith sy'n ei wynebu. Eglurodd: 'Yr hyn a'm denodd i i Fangor fel myfyriwr oedd y cyfle i ddilyn cwrs diddorol a oedd yn rhoi trosolwg cyflawn i mi o hanes a llenyddiaeth y Gymraeg, a chael fy nysgu gan bobl sy'n arbenigwyr yn eu meysydd. Rwy'n gwybod o brofiad mor ddiddorol yw modiwlau'r adran, a sylfaen mor dda yw'r cwrs ar gyfer y byd gwaith wedyn, felly mae sicrhau y bydd y cyrsiau ar gael ar-lein i fwy o bobl yn gam pwysig a chyffrous iawn. Wrth gwrs, mae penderfynu dilyn cwrs prifysgol yn benderfyniad mawr, a rhan o'm gwaith i yw sicrhau y bydd cefnogaeth drylwyr ar gael i'r myfyrwyr newydd, a sicrhau y byddant yn cael profiad heb ei ail.'

Dewch am banad, ac yna dewch am BA!

Anfonwch unrhyw gwestiynau neu ymholiadau at Dr Elis Dafydd, e.dafydd@bangor.ac.uk



Tudalen o lyfr poced Dolbadarn Castle 1799 gan Joseph Turner



Llyfr Poced 'The Dolbadarn Castle Sketch Book 1799 gan Joseph Turner (Tate Gallery, Llundain

un flwyddyn, fod ei ddiddordeb yn hanes y castell wedi cynyddu i'r fath raddau fel iddo wneud ymchwil i hanes Llywelyn ac Owain Goch ac yna dychwelyd i Lanberis er mwyn cychwyn ar y gwaith o beintio'r llun enwog o'r castell.

Felly cwblhaodd y gwaith o beintio llun Castell Dolbadarn yn ei stiwdio yn Llundain rhwng y flwyddyn 1798 a 1799. Fe dderbyniodd gymorth llawn a pharod ei dad wrth weithio yn ei stiwdio. Ei dad oedd yn cadw trefn yn y gweithdy ac yn ymorol fod popeth wrth law i'r artist ifanc gan archebu nwyddau ac ati ar gyfer ei waith. Parhaodd y drefn yma am 30 o flynyddoedd hyd at farwolaeth ei dad yn y flwyddyn 1829. Mae llawer o brif haneswyr y byd celf o'r farn fod gan Turner feddwl mawr o lun y castell. Dyma'r union lun a gyflwynodd gyda'i gais am aelodaeth i'r Royal Art Academy yn y flwyddyn 1800. Mae'r llun yn cynnwys milwyr yn amgylchynu carcharor ac yn amlwg yn dangos teimladau'r

artist dros y ffaith fod Owain Goch wedi ei garcharu yn y castell. I gydfynd â'r llun fe gyfansoddodd y pennill canlynol i nodi ei siom a'i syndod fod Owain Goch wedi ei garcharu yn y castell:

*"How awful is the silence of the waste,
Where nature lifts her mountains to the sky,
Majestic solitude, behold the tower
Where hopeless Owen, long imprison'd pin'd,
And wrung his hands for liberty, in vain"*

Tra ar ei ymweliad â Llanberis fe arhosodd yn y *New Inn* sef enw gwreiddiol Gwesty Dolbadarn. Pan godwyd Gwesty'r Victoria yn 1830 cafodd ei enwi ar ôl y Castell, sef y *Dolbadarn Inn* ond newidiwyd yr enw i *Victoria* ar gyfer ymweliad y Dywysoges Victoria ym mis Awst 1832. Anrhydeddwyd Joseph Turner pan enwyd stryd yn y pentref yn ei enw gan Stad y Faenol yn 1870.



Llun Turner o'r castell sydd mewn storfa arbennig yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar gyfer eich holl anghenion gwres a plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - I Cefn Cynrig Bethel LL55 1UW
Ffôn (01248) 674927 Symudol - 07798 746718

Gohebydd: Iola Llewelyn Gruffydd
Tegannedd – 01286 650 035
iolallew@hotmail.co.uk

Etholiadau Cyngor Gwynedd

Ni chafwyd etholiad yn Waunfawr y tro yma, ac etholwyd Edgar Owen, Plaid Cymru i gynrychioli'r pentref ar Gyngor Gwynedd yn ddiwrthwynebiad. Llongyfarchiadau mawr i chi Edgar.

Llongyfarchiadau hefyd i un arall o aelodau'r gangen sef Jac Jones, Bro Waun ar gael ei ethol yn Gynrychiolydd Gogledd Cymru ar Bwyllgor Gwaith Plaid Ifanc. Mae Jac hefyd yn ymgeisydd ar gyfer sedd ar Gyngor Dinas Bangor lle mae'n fyfyrwr. Dymuniadau gorau i chdi Jac.

Cydymdeimlo

Rydym yn cydymdeimlo gyda Meg Elis, Glanfa, gydag Emyllt Calley ei merch a'r teulu ehangach ar achlysur marwolaeth gŵr Emyllt, Pete Calley. Cofion cynnes iawn atoch i gyd.

Bu farw Mrs Emsyl Jones, Bro Waun, yn 91 oed. Un o Nant Gwynant yn wreiddiol, ac a symudodd i Waunfawr wedi iddi briodi. Bu'n eithriadol o garedig a gofalus am ei chwaer Eirlys a'i brawd Gareth am nifer fawr iawn o flynyddoedd. Rydym yn cydymdeimlo â'i meibion, Alun a David, ei merched yng nghyfraith Christine a Nia, a gyda'r wyrion, Sion, Amanda, Samantha, Arfon, Arwel, Ioan, Elan a Bela a'r gorwyrion i gyd.

Arddangosfa artist lleol

Mae arddangosfa o waith newydd Nesta Eluned, Tremnant, wedi agor ym Mhlas Glyn y Weddw, Llanbedrog a bydd yno hyd at 10fed o Orffennaf. Mae'r gweithiau celf yn cynnwys nifer o dirluniau adnabyddus i drigolion Waunfawr a'r cylch ac mae'n werth mynd i'w gweld. Llongyfarchiadau gwresog Nesta.

Diolchiadau

Dymuna Ann a theulu Coed Gwydryn ddiolch o galon i bawb a gysylltodd am eu cydymdeimladau, teyrngedau twym galon, a'r rhoddion hael tuag at offer i'r feddygfa newydd yn Waunfawr yn dilyn marwolaeth ei gŵr Morus Elfryn yn ddiweddar

Mae Emyllt Calley (gynt o Lanfa) am ddiolch i bawb am eu geiriau caredig a'u cefnogaeth yn dilyn marwolaeth ei gŵr Pete. Mae wedi bod yn gysur mawr iddi hi, Sioned a Mathew bach.

Swydd Newydd

Llongyfarchiadau i Nan Wyn, Tan y Fron gynt ar gael ei hethol yn Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Dymuniadau gorau i chdi Nan yn dy swydd newydd.



Antur Waunfawr
Aeth disgyblion Moel Eilio ar daith arbennig i Antur Waunfawr yn ddiweddar er mwyn dysgu mwy am blanhigion a phlannu llysiau. Diolch yn fawr i bawb am y croeso. Yr oedd y plant wrth eu boddau yn astudio planhigion a blodau ar y daith.



Capel y Waun a Chlwb CIC



Cafwyd pnawn o Grefft, Cân a Stori yn Festri Capel Waunfawr pnawn Sadwrn 9fed Ebrill, efo nifer dda iawn o blant a theuluoedd wedi dod. Ar ddiwedd y pnawn cawsom gyfle i blannu hadau blodau haul (sy'n symbol o obaith a heddwch i bobl Wcráin) – a hadau blodau Camri (blodyn cenedlaethol Rwsia) fel gweithred symbolaidd wrth i ni weddio am gyfle i bobl y ddwy wlad fedru tyfu a blodeuo efo'i gilydd mewn heddwch a harmoni. Diolch i Eurwyn am ei waith yn adeiladu'r bocs plannu o flaen y capel ac i'r plant am eu help yn plannu'r hadau. Mae'r hadau wedi egino'n dda – cofiwch stopio i edrych arnynt wrth basio'r capel – ac i gofio am bawb sydd yn dioddef oherwydd y rhyfel. Bydd Clwb CIC yn ail-gychwyn nos Lun 9fed Mai ac yn cyfarfod bob yn ail nos Lun. Bydd cyfle i blant y Cyfnod Sylfaen ddod rhwng 4.15 – 5.00 PM ac i blant Cyfnod Allweddol 2 ddod rhwng 5.00 – 6.00 PM. Mae Susan a fi'n edrych ymlaen yn fawr iawn at gael eich cwmni! Diolch!
Anna Jane



Chwaraeon

Diolch yn fawr iawn i Mr Dilwyn Jones a Mr Dylan Humphreys am noddi cit chwaraeon ar gyfer yr ysgol ac i gyfeillion yr ysgol am drefnu a phrynu'r crysau. Dyma lun o ddisgyblion yn gwisgo'r cit mewn gêm gyfeillgar yn erbyn Ysgol Dolbadarn yn ddiweddar.

Bu i dîm o enethod gystadlu yn nhwrnament pêl-droed yr Urdd yn Nhreborth yn ddiweddar. Mae potensial mawr i'r tîm a'r gobaith yw y gallant gystadlu eto'n fuan.



Amgueddfa Lechi yn dathlu 50 mlynedd

Cafodd dosbarth Cefn Du ymweld â'r amgueddfa yn ddiweddar i greu baneri a gwaith celf i ddathlu 50 mlynedd yr amgueddfa lechi. Bu i Tara Worby, yr artist, ddod i'r ysgol hefyd er mwyn creu gwaith arbennig gyda'r disgyblion ar gyfer yr achlysur.



Staffio

Braf yw cael croesawu Mrs Hannah Williams yn ôl atom yn dilyn cyfnod Mamolaeth.



Celf

Llongyfarchiadau i rai o ddisgyblion yr ysgol a fu'n llwyddiannus gyda'u gwaith celf yn yr Eisteddfod Cylch yn ddiweddar. Pob lwc iddynt gyda'r cam nesaf.



Cyfnod Sylfaen

Mae plant dosbarth Meithrin a Derbyn yn astudio'r ardal leol a phentref Waunfawr ar hyn o bryd. Dyma nhw yn y siop yn gwneud gwaith ymchwil ar gyfer creu siop yn y dosbarth. Diolch i staff y siop am y croeso.

Sioe Nefyn

Bu nifer o'r disgyblion yn cystadlu yn Sioe Nefyn yn ddiweddar a sawl un wedi cael llwyddiant. Dyma fachgen gyda dyfodol disglair o'i flaen. Da iawn ti!



Dringo

Mae'r bachgen hwn wedi cael llwyddiant mawr gyda'i ddringo yn ddiweddar ac erbyn hyn yn cynrychioli Prydain. Pob lwc iddo yn y cystadlaethau nesaf yn y dyfodol agos.



Digwyddiadau Dathlu'r 500

Fe gofiwch mai rhifyn mis Ebrill o'r Eco oedd y 500fed rhifyn, ac i ni drefnu digwyddiadau er mwyn dathlu'r achlysur. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at y gwaith trefnu: i Gareth Roberts o Fenter Fachwen a Dafydd Whiteside Thomas am arwain y teithiau cerdded, i ysgolion cynradd y fro a'u disgyblion am eu brwdfrydedd i gymryd rhan yn y gweithdai celf, i Elen Williams am arwain y gweithdai ac i Amgueddfa Lechi Cymru am arddangos y gwaith celf i'r byd ei weld. **Dyma ychydig o'r hanes...**



Taith 'Hanesion Lleol' 16eg Ebrill o dan arweiniad Gareth Roberts, Menter Fachwen

Gyda'r haul yn gwenu arnom ar fore Sadwrn braf, fe adawodd y criw brwd sgwâr Llanrug a'i chychwyn hi tua'r eglwys. Roeddem yn griw cymysg, rhai yn adnabod ei gilydd ac eraill yn cyfarfod ein gilydd am y tro cyntaf. Braf hefyd oedd cael croesawu rhai sydd ar fin symud i Lanrug yn y dyfodol agos. Pa well ffordd o ddod i adnabod hanes yr ardal a chwrdd â darpar gymdogion!

Os nad ydych chi wedi bod ar un o deithiau cerdded Gareth Roberts o'r blaen, mae hi wir werth i chi ystyried ymuno ag un ohonynt. Ewch draw i dudalen Facebook Menter Fachwen, neu cysylltwch â'r Fenter yn uniongyrchol er mwyn holi am eu rhaglen o deithiau lleol. Chewch chi ddim eich siomi gan fod Gareth yn storiwr mor

naturiol a brwdfrydig, ac yn gyfathrebwr heb ei ail. Cawsom ein haddysgu a'n difyrru ac fe wnaeth yr oriau fflio heibio.

Wna'i ddim datgelu gormod o'r straeon, rhag ofn eich bod eisiau ymuno ag un o deithiau Gareth i'r dyfodol, ond cawsom wybod am hanes: Hugh Rowlands o Blas Tirion, y Cymro cyntaf i ennill Croes Fictoria, pam bod rhai cerrig beddi ym mynwent yn eglwys yn wynebu i gyfeiriad sy'n groes i'r gweddill, y 'clwb' yng Ngheunant!, y pwmp petrol ar lôn Ceunant, hen fwthyn y tu ôl i Dan y Coed (gweler y llun), tarddiad yr enw Cwm-y-Glo a llosgi delw o Hitler, hen stesion, porthladd, tafarndai lu a siopau Cwm-y-Glo, pam bod tyllau bychain yn rhai o'r cerrig ar bont Brynrefail, enwau caeau Brynrefail, adeiladau'r rheilffordd yn Stabla a siop bob dim ar Ffordd yr Orsaf Llanrug.

Diolch eto i Gareth ac i'r criw am oriau o ddifyrwch. Gawn ni drefnu tywydd cystal ar gyfer bob taith o hyn ymlaen os gwelwch yn dda!

Arddangosfa Celf yn Amgueddfa Lechi Cymru

Ar ddiwedd tymor ysgol y Pasg fe ymwelodd yr artist Elen Williams â phump o'n hysgolion lleol er mwyn cynnal gweithdai celf - Ysgol Bethel, Ysgol Waunfawr, Ysgol Penisarwaun, Ysgol Gwaun Gynfi ac Ysgol Dolbadarn. Bydd Osian Owen yn ymweld ag Ysgol Llanrug ddiwedd mis Mai er mwyn cynnal gweithdy barddoniaeth gyda'r plant, ac fe gewch eu hanes yn rhifyn nesaf yr Eco.

Cafodd bawb foddhad mawr o greu gweithiau celf gan ddefnyddio hen rifynnau o'r Eco er mwyn dehongli eu pentref neu hanes lleol. Rydych eisoes wedi cael rhywfaint o'r hanes yn rhifyn mis Mai o'r Eco, ond cam nesaf y cynllun oedd arddangos y gwaith

yn yr Amgueddfa Lechi dros y Pasg. Fe welwch o'r lluniau bod popeth wedi cymryd ei le yn fendigedig. Fe greodd Ysgol Dolbadarn ddillad allan o bapur, a chawsant eu harddangos yn y tŷ golchi. Creodd Ysgol Bethel lestri a bwyd te parti, ac fe wnaeth Ysgol Waunfawr addurniadau blodau. Cafodd y cwbl ei osod yng nghanol y byrddau yn y Caban, oedd yn addas iawn wrth gwrs. Darluniau a greodd Ysgol Gwaun Gynfi, a hanes Ffynnon Arthur oedd pwnc gwaith Ysgol Penisarwaun. Roedd eu gwaith hwy i'w gweld yn y stafell arddangos ger yr olwyn ddŵr. Os fuoch chi draw yn yr Amgueddfa dros wyliau'r Pasg gobeithio eich bod wedi cael pleser o weld y gwaith, a gobeithio bod y gwaith hefyd wedi addysgu nifer o ymwelwyr am hanes ein bro.

Diolch eto i bawb a fu'n rhan o'r cynllun.





Taith ‘Pont, Melin a Chreigiau’ 24ain Ebrill o dan arweiniad Dafydd Whiteside Thomas

Criw bach ohonom, heb anghofio Elsi'r ci defaid, ymgasglodd wrth Bont Pen Llyn ar brynhawn dydd Sul heulog i fwynhau taith gerdded efo Dafydd Whiteside Thomas.

Ond ydy hi'n rhyfedd fel y gallwch gerdded heibio pethau sawl gwaith heb sylwi arnynt a bod heb syniad am yr hanes sydd o'n cwmpas ym mhob man.

Adeiladwyd Pont Pen Llyn yn 1826 gan Stad Glynllifon ac os edrychwch yn fanwl ar y llechen yn y llun cyntaf fe welwch fod y bont bellach mewn plwyf gwahanol! Gwerthwyd y bont wedyn i Stad y Faenol ond ar un amod, ni chaent godi toll am ei chroesi, rhywbeth dwi'n siŵr roedd y bobl leol yn ei

werthfawrogi.

Buom yn crwydro wedyn drwy Frynrefail gan ddilyn Afon Caledffrwd ac unwaith eto troedio llwybrau anghyfarwydd ond Dafydd yn byrlymu ffeithiau a gwybodaeth ddiddorol, am yr hyn roeddem yn ei weld.

Pasio Llwyn Cogau sy'n adfail bellach ond yn adeilad a gafodd sylw gan O.M. Edwards. Roedd y melinau'n elfen bwysig o'r dirwedd erstalwm ond wedi sychu bellach a heb wybodaeth ein harweinydd fyddem ni ddim yn gwybod ein bod yn croesi ffos melin oedd yn arfer cario dŵr o'r afon i Lyn y Felin ym Mrynrefail.

Pasio safle Melin Sam a Gallt Sam a dotio wrth glywed fod Samuel Jones yn berchennog ar y gwaith

llechi ysgrifennu, busnes fu'n llewyrchus ar ôl y rhyfel gan fod papur yn brin ac yn ddrud! Troi wedyn yn ôl drwy'r Creigiau - anodd credu erbyn hyn bod cymuned i'w gael yno a sylwi ar ôl dipyn, dawelwch y lle, balm i'r enaid dim sŵn ceir na phobl dim ond natur.

Taith fendigedig, cawsom ein bendithio efo tywydd braf a chwmni difyr a dysgu llawer am ein hanes lleol. Diolch o galon i chi Dafydd am daith hynod ddifyr a'ch stôr o wybodaeth gafodd ei drosglwyddo mor afieithus.



Dyddiadur y gath ddwad/ Bobliadur – Rhan 4

Dyma hanes gath fawr goch, a ddaeth, ychydig dros flwyddyn yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond doedd ei fywyd hyd hynny ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

Wyddoch chi fod cathod yn rhannu 95.6% o'u gwneuthuriad genetig efo teigrôd. Ia TEIGROD! Maen nhw hefyd yn rhannu rhai arferion ymddygiadol fel marcio eu tiriogaeth efo oglau eu wrin, stelcian ysglyfaeth ac ymosod! Tybed ydy hynny'n esbonio peth o ymddygiad Bob? Ta waeth - awn ni'n ôl at lethrau Moel Rhiwen a gadael i Bob gario mlaen efo'i stori:

“Coeliwch chi fi mae cathod yn dda am ddringo! Hyd yn oed rhai 8 oed sydd 'ychydig' yn foliog fel fi... Felly bore 'ma, ar ôl 'molchi'n lân a gwneud dipyn o ioga, penderfynais ddringo i ben y bocsys roedd hi wedi eu gosod ar benna'i gilydd i mi. Wel, ar f'enaid i – dyna olygfa – dwi'n gallu gweld lle mawr y tu allan i'r cwt (ges i gip arno pan landiais i yma yn y caets). Dim golwg o'r bobl eto, ond dydy pobl ddim yn codi cyn cathod Moel Rhiwen. Waw! Mae yna bob math o bethau bach pluog yn hedfan o gwmpas, dwi'n gweld ambell un yn glanio ar



y llawr a'r wal. Mmmmm mi fasa un o'r rheina'n flasus iawn – yn enwedig gan fod fy mhowlen bisgedi'n wag, mae fy ngheg i'n dyfrio wrth feddwl am gael gwledda ar un ohonyn nhw.

Dwi'n gallu gweld yr un fach yn dod i fyny'r llwybr tuag at ddrws y cwt, mae ganddi botel o ddŵr yn un llaw a bag plastig yn llall, chwarae teg iddi mae'n cadw fy nhoiled yn hynod o lân ac yn sicrhau bod gen i ddigon o ddŵr glân i'w yfed. Fel arfer mae hi'n mwydro siarad efo fi ac yn wên o glust i glust o ngweld i ar ben y bocsys pren. Ond ara deg mae'r un mawr tu allan i'r ffenest yn sbïo mewn... Be sy'n bod arno fo!!! Dydw i ddim

yn gath flin, ond mi wnaeth o fy nychryn i a fedrwn i ddim peidio â chwyrnu yn ffyrnig arno fo, a chwipio fy nghynffon o un ochr i'r llall, i ddangos fy anfodlonrwydd ... does gynno fo ddim hawl sbïo mewn arna i...

Mae'r un fach yn chwifio ei breichiau ac mae o'n diflannu yn ôl i'r tŷ... Diolch byth. Iesgob annwyl dwi angen fy mrecwast bellach. Mae hi'n trio rhoi mwythau i mi tra dwi'n bwyta, ond dwi wedi cael llond bol ac mae hi'n cael swadan sydyn i'w chadw hi yn ei lle! Asiffeta - mae isio mynadd efo'r petha dwy goes yma weithiau...

Ffwrdd a hi eto, ac mi ydw i ar fy mhen fy hun. Dim byd ar ôl yn fy mhowlen, felly nôl a fi i weld beth welai yn y byd mawr y tu allan i'r cwt. Mae pelydrau'r haul yn tywynnu drwy'r ffenestr, dwi'n gynnes braf, does dim sŵn gwynt ac mi ydw i'n gallu gweld beth sy'n mynd ymlaen y tu allan i'r cwt.

Helo... mae'r ddau ohonyn nhw'n cerdded o gwmpas y lle rŵan, yn cario pethau yn llawn hadau a chnau a ballu a'u hongian nhw ar fachau... am ryw reswm maen nhw'n bwydo'r pethau bach pluog. Chwarae teg iddyn nhw, pan ga'i allan o'r cwt mi fydd yna siawns am bryd bach ychwanegol, neu o leiaf ychydig o ymarfer corff yn rhedeg ar eu holau nhw. Jest un peth dwi angen bellach, ffordd allan o'r cwt yma... mi fydd yn rhaid i mi gael cynllun.

Ella na fydd y lle yma'n rhy ddrwg wedi'r cwbl.”



Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru



Tyddyn Teg
Bwyd - Tir - Pobl

LLYSIAU LLEOL FFRES
Ymunwch â'n cynllun llysiau!
Dewch i'n siop!

- Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.
- Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.

Cyslltwch â ni: **07599 813777**
✉ info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: www.tyddynteg.com



SGANIWCH YMA!
i gymryd rhan



ARDAL NI 2035

Cyfle i roi eich barn ar sut i wneud eich ardal leol yn lle gwell i fyw

Gallwch lenwi'r holiadur:

- ar-lein drwy ymweld â [wefan dweudeichdweud.gwynedd.llyw.cymru](http://wefan.dweudeichdweud.gwynedd.llyw.cymru);
- drwy geisio copi papur o'ch llyfrgell neu Siop Gwynedd leol;
- drwy ffonio Galw Gwynedd (01766 771 000) i ofyn am gopi papur drwy'r post.
- Angen ffurf hawdd ei darllen? E-bostiwch eichbarn@gwynedd.llyw.cymru neu ffoniwch Galw Gwynedd (01766 771 000)

Mae arolwg Ardal Ni ar agor tan 30 Mehefin



Enwau coll ac ewyllys

Yn gynharach eleni cyhoeddwyd llyfr Gerald Morgan *Ewyllysiau Cymraeg – Pennod Goll yn Hanes yr Iaith* gan Wasg Y Lolfa. Yn y gyfrol ceir enghreifftiau o bob rhan o Gymru o ewyllysiau a ysgrifennwyd yn y Gymraeg er gwaetha'r ffaith fod y Gymraeg wedi ei gwahardd gan Ddeddfau 1535–42 fel iaith cyfraith. Ond ei gwahardd rhag ei defnyddio mewn achosion sifil a wnaed, ac yr oedd hawl gyfreithiol yr Eglwys Wladol wedi ei heithrio; a dyna, mae'n debyg, pam yr oedd nifer yn defnyddio'r hawl hwnnw i ysgrifennu eu hewyllys yn eu mamiaith.

Mae'r llyfr yn hynod ddifys a darllenadwy, a cheir ynddo enghreifftiau o ewyllysiau wedi eu hysgrifennu yn Gymraeg o blwyfi Llanberis a Llanrug. Mae un ewyllys o blwyf Llanrug yn sôn am leiniau o dir na chlywais erioed amdanynt, na'u gweld mewn print o'r blaen. Yn y gyfrol ceir cyfeiriad at ewyllys yn dyddio o 1856, sef eiddo Robert Evans, Tanrallt, sy'n nodi: "Yr wyf gwedi rhoddi y Gwartheg a'r Dodrefn oedd genyf yn Tanrallt i Catherine Roberts a'i Gwr, am fy nghadwraeth..." Ond roedd hefyd yn berchen ar diroedd eraill: "...y lle sydd genyf yn y Bwlch Gwnog Llanrug, sef Waunrhyd uchaf a'r Waunrhyd isaf a'r Ty sydd ar y lle; yr wyf yn rhoddi y lle yma i Catherine Roberts a'i gwr Michael Roberts am eu hoes, ac i'w mab, Robert Roberts ar ol eu marwolaeth hwythau." Dyna'r cyfan a ddyfynnir o'i ewyllys yn y llyfr, ond roedd yn ddigon i ennyn fy chwilfrydedd a cheisio mwy o wybodaeth am Robert Evans a'i deulu, a'r tir oedd yn eiddo iddo yn y Bwlch Gwnog. Mae'r ddwy waun ym Mwlch Gwnog hefyd yn enwau hollol ddieithr i mi.

Mae'n ymddangos mai Tan yr Allt Deg oedd enw gwreiddiol Tanrallt, y tyddyn ar y chwith gyferbyn â Chastell Bryn Bras wrth ddringo o ardal y Bryngwyn drosodd i Gwm y Glo. Mae'n ymddangos ar Fap Degwm Llanrug, ond nid Robert Evans oedd y perchennog, ond yr Arglwydd Newborough, Glynllifon. Y stad honno oedd yn berchen y rhan helaethaf o'r tir o Danrallt drwy Gwm y Glo a'r Llwyncoed i Glynrhonwy a therfyn plwyf Llanrug. Dyna pam na allai Robert Evans adael Tanrallt i'w ferch yn ei ewyllys.

Nid yw enwau'r ddwy Waunrhyd yn ymddangos ar y Map Degwm, ac nid Robert Evans oedd perchennog Bwlch Gwnog na thyddyn arall o'r enw Bwlch. Ond yr oedd yn berchen ar dyddyn oedd yn ffinio â'r ddau ddaliad, sef Ty'n Weirglodd, ac felly mae'n amlwg mai yma roedd y ddwy Waunrhyd. Yn ei ewyllys, cyfeirio at ardal Bwlch Gwnog a wna Robert Evans, yr ardal oedd hefyd yn cynnwys Y Fawnog Rydd (a foddwyd i greu Llyn Bryn Bras). A'r hyn sy'n ddiddorol ynglŷn â Thy'n Weirglodd ar gofnodion Map y Degwm yw'r

ffaith nad oedd neb yn byw yno – nodir y preswylwyr ar y rhestr pennu, ond yn yr achos hwn ceir y geiriau 'in hand', hynny yw, fod trefniadau'n cael eu gwneud i benderfynu ar denant.


Yng nghyfrifiad 1841, gŵr gweddwr oedd Robert Evans, yn byw yn Nhanrallt gyda dau fab – John (25 oed), Evan (18 oed) a Catherine, ei ferch, oedd yn 15 oed. (Roedd Elisabeth, ei wraig, wedi marw ddechrau 1841). Erbyn 1851 mae Catherine yn briod efo Michael Roberts (sy'n disgrifio'i hun fel chwarelwr a ffermwr ar 6 acer o dir). Mae ganddynt fab o'r enw Evan (2 oed), a fu farw'n blentyn. Yno hefyd roedd Robert Evans, 72 oed ac yn parhau i weithio fel chwarelwr. Yn 1854 y ganwyd Robert, felly dwyflwydd oedd oedd pan fu farw ei daid Robert Evans. Yn nhyb y taid felly, y bachgen dwyflwydd oedd hwn oedd yr unig un a allai etifeddu ei dir yn y Bwlch Gwnog wedi marw ei rieni.

Ond ganed mwy o blant i Catherine a Michael Roberts: Evan (arall) tua 1858 a Michael tua 1863. Ond beth ddigwyddodd i'r etifedd, Robert? Mae'n ymddangos ar gyfrifiad 1861 ond mae wedi diflannu o Danrallt erbyn 1871. Erbyn 1871 mae Catherine, y fam, hefyd wedi marw, a Michael yn cyflogi morwyn i ofalu am y ddau fachgen. Erbyn 1881 mae Michael wedi ail-briodi, a'i fab, Michael yw'r unig blentyn sy'n byw gartref yn Nhanrallt. Y Michael hwn (sef ŵyr ieuengaf Robert Evans) sy'n priodi Jane Prichard yn Eglwys Llanrug ddiwedd Medi 1898, ac yn parhau yn y cartref, Tanrallt, yn 1911 gyda dwy o ferched – Kate a Gwladys.

Ond pwy tybed oedd y Robert Evans hwn a ysgrifennodd ei ewyllys yn Gymraeg? Methais â chael cofnod o'i fedydd yn Llanrug, ond yn 1808 priododd gydag Elizabeth Jones yn Eglwys y Plwyf. Roedd hi'n gallu arwyddo ei henw ar y gofrestr, ond RE yn unig sydd gyferbyn â'i enw ef, a'r arferol "the mark of Robert Evans". Roedd Elizabeth yn ferch i John a Catherine Jones, Cae'r Weddus, cyn symud tua 1797 i dŷ newydd o'r enw Tan y Coed Goleu yn yr un ardal.

Roedd Robert Evans yn aelod cynnar o Gapel y Methodistiaid, Llanrug, ac yn y capel hwnnw y bedyddiwyd ei blant. Mae John Eiddon Jones yn ei gyfrol am hanes yr achos yn Llanrug yn cyfeirio ato, ac yn amcangyfrif iddo gael ei godi yn flaenor yn Llanrug tua 1832-35. Yr oedd hefyd yn aelod o'r achos cychwynnol yng Nghwm y Glo, ac yn hanes y capel yno, dywedir iddo fod yn un o'r pedwar cyntaf o'r pentref i ymaelodi yn Llanrug. Nodir gan William Hobley iddo gael ei ddewis yn flaenor yn 1834.

Dywedir mai tua 1837 y rhoddwyd y bregeth gyntaf yng nghapel Cwm y Glo, a hwythau'n rhan o daith bregethu gyda Llanrug a Chapel Rhydfawr. Dyna'r flwyddyn, yn ôl J. Eiddon



Jones "y cododd un haid (o Lanrug), gan ddisgyn yng Nghwm y Glo, a Robert Evans yn eu blaenori..."

Mae'n fwy na thebyg fod y wybodaeth uchod – gan J. Eiddon Jones a William Hobley – wedi ei gasglu o lyfryn "Dechreuad a chynnydd eglwys Cwm y glo" a gyhoeddwyd tua 1878. Yr awdur oedd John Roberts, mab hynaf Robert Evans. Roedd

mab arall, Evan William, wedi bwriadu mynd i'r weinidogaeth, ond bu farw'n 26 oed o'r ddarfodedigaeth yn 1849 tra'n fyfyrwr yng Ngholeg y Bala.

Tybed beth ddigwyddodd i Robert Roberts, ei ŵyr, a oedd, yn ôl yr ewyllys, i etifeddu'r tir ym Mwlch Gwnog. Os oes unrhyw un o ddisgynyddion y teulu yn dal yn yr ardal, byddai'n dda cael gair gennych.

(Ôl nodyn. Holais Eirwyn Williams, Llwyncoed, am yr enwau Waunrhyd uchaf ac isaf, a gwyddai am eu bodolaeth ym Mwlch Gwnog, ond roedd yr enw Ty'n Weirglodd yn yr un ardal yn ddieithr iddo).

Teulu ar goll

Yn ystod yr wythnosau diwethaf daeth cais am wybodaeth ynglŷn â theulu a fu'n byw am gyfnod byr yn Lodj Llwyn Brain, Llanrug. Roedd William Rowland Williams yn frodor o Bentraeth, ond mentrodd ar draws Y Fenai a chael gwaith fel *coachman* yn Tryfan Hall, Rhostryfan. Daeth i adnabod gweddwr ifanc o'r enw Hannah Roberts, a phriodwyd y ddau yn Eglwys Llanwnda yn 1909. Erbyn 1911 roedd y ddau yn byw yn Lodj Llwyn Brain gyda merch 5 mis oed o'r enw Mary.

Perchennog neu denant Llwyn y Brain bryd hynny oedd Dr O. Lloyd Williams, a symudodd yno o Lanberis. Mae'n bosib mai ef a roes swydd *coachman* i William Rowland Williams, oherwydd ar ffurflen y cyfrifiad mae'n nodi mai 'coachman i'r doctor' oedd ei waith.

Tua mis Mai 1917 roedd Dr Lloyd Williams yn ymadael â Llwyn y Brain, ac o bosib mai dyma pryd y daeth swydd y *coachman* i ben. Ond i ble'r aeth? Does dim sôn amdano yng nghyfrifiad 1921. Does wybod chwaith a gafodd William a Hannah fwy o blant ar ôl Mary.

Prin ddeng mlynedd y bu'r teulu'n byw yn y Lodj, ond methwyd â chael dim o'u hanes wedyn. Oes unrhyw un o'r darllenwyr â chysylltiad â'r teulu hwn?

Os oes gan unrhyw un wybodaeth am deulu Tanrallt neu deulu Lodj Llwyn Brain, cysylltwch. Dewch i gysylltiad hefyd gydag unrhyw ymholiad am hanes lleol yn ardal yr "Eco" drwy ffonio Dafydd Whiteside Thomas 01286 673515 neu ar e-bost dafydd.wthomas@btinternet.com neu anfonwch i Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon LL55 4BA.

Ysgol Gynradd Llanrug



Pêl-droed
Cafodd bechgyn yr ysgol lwyddiant anhygoel gan ddod yn bencampwyr yn y Drenewydd. Bu hynny ychydig o ddyddiau yn unig ar ôl i 3 o'r bechgyn gynrychioli Ysgolion Gwynedd a dod yn fuddugol yn nhwrament ysgolion Cymru yng Nghaerdydd.

Tro'r merched oedd hi nesaf a chafwyd diwrnod i'w gofio a hwythau yn chwarae yn ardderchog yn nhwrament yr Urdd.

Sgiliau Beicio
Llongyfarchiadau i blant Blwyddyn 6 am basio lefel 1 a 2 ar ôl cael hyfforddiant i ddatblygu eu sgiliau beicio.



Gellir dal fyny gyda holl weithgareddau'r ysgol ar dudalen trydar yr ysgol - @YsgolGynLlanrug



ECO'r Wyddfa

Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?

Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu

Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com



Ysbrydoliaeth

gan Rob Evans



Amgueddfa Lechi

Ar hyn o bryd mae Blynnyddoedd 3 a 4 yn gweithio ar y cyd gyda'r Amgueddfa Lechi ar gyfer dathlu ei phen blwydd yn 50 oed. Cawsant ddiwrnod creadigol dros ben yn braslunio arteffactau ac yn llunio baneri lliwgar yn Llanberis. Cynhaliwyd gweithdy Celf gan Gwen a Tara hefyd a bu i'r plant fwynhau'n arw.



Teithiau Cerdded

Hoffai'r ysgol ddiolch i Anti Gwawr am dywys plant Cyfnod Sylfaen a Blynnyddoedd 3 a 4 o amgylch y pentref yn ddiweddar. Chwilio am arwyddion y gwanwyn oedd y Cyfnod Sylfaen tra bod Blynnyddoedd 3 a 4 yn dysgu am hanes Llanrug a sut mae'r pentref wedi newid dros y blynnyddoedd.



Roedd amser yn mynd heibio a finau heb setlo ar bwnc i ysgrifennu amdano'r mis yma, roedd fy mhen yn dioddef o fymryn bach o banig. Mae cael syniadau yn anodd pan mae rhywun yn y cyflwr yna. Ond ddoe roedd rhywbeth i edrych ymlaen ato - ar ôl dros ddwy flynedd o gyfyngiadau roedd Cymdeithas Hanes Bro Ogwr yn ymweld ag eglwys Llanilltud Fawr. Dyna le oedd coleg seintiau Sant Illtud yn y pumed a'r chweched ganrif. Roedd hyn yn mynd i fod yn ddiddorol.

Roedd llawer i'w weld, hen feini yn y cyntedd, cerrig beddau ar y llawr ym mhob man, murluniau, delwau a chofeb wedi ei gerfio gan Iolo Morgannwg. Wrth gwrs efo gymaint i'w weld mae'n rhaid cael rhywun gwybodus i ddatgelu'r hanes ac roeddwn ni'n ffodus bod yr Athro Madelaine Gray yna i daflu golau ar bopeth. Hyn oll trwy gyfrwng y Gymraeg - pleser pur!

Diolch byth i Gymdeithas Hanes Bro Ogwr!

Er mai dysgwyr wnaeth sefydlu'r Gymdeithas, nid dim ond dysgwyr oedd yna. Roedd cymysgedd dda o ddysgwyr a Chymry Cymraeg, tua 30 o bobl yn gyfan

gwbl, a phawb yn cymysgu, pawb yn adnabod ei gilydd. Dyma enghraifft dda o'r gwahaniaeth y mae dysgwyr yn gallu gwneud i'n cymunedau. Sawl ardal dros Gymru a fyddai'n elwa o'r fath gymdeithas? Llawer iawn dw i'n siŵr.

Ond mae'n gallu gweithio'r ffordd arall hefyd a does dim rhaid iddi fod yn gymdeithas hanes. Pa bynnag fath o gymdeithas da chi'n dewis mae'n rhaid i chi gael cylch o bobl o'ch cwmpas cyn i chi ddechrau. Un peth dw i'n gwybod yw bod dysgwyr yn frwdfrydig, maen nhw eisiau defnyddio'r iaith maen nhw wedi bod mor brysur yn dysgu. Cymerwch amser i ddod i adnabod eich dysgwyr lleol, cysylltwch â'ch tiwtor lleol, trefnwch gael coffi efo nhw mewn caffi. Gofynnwch pa fath o gymdeithas a fydd o ddiddordeb iddyn nhw.

Cofiwch, ar ddechrau'r cyfnod clo roedd 9,000 o bobl wedi cofrestru i ddysgu Cymraeg - petaswn ni'n llwyddo i gael nhw i gyd i mewn i'n cymunedau Cymraeg byddai hynny'n gwneud lles mawr i'n hiaith annwyl. A'r bonws yw bydd mwy eto yn cofrestru bob mis Medi!

Mae'n gyfle rhy bwysig i wastraffu!

Cornel Ddarllen



PRIDD – Nofel gyntaf gan awdur ifanc

Ddrama'r flwyddyn olynol. Enillodd ei gyfrol gyntaf, nofel ffuglen wyddonol ar gyfer pobl ifanc, *Gwalia*, wobwr Tir na n-og yn 2016.

Mae Llŷr hefyd yn ddramodydd; llwyfannwyd ei ddrama 'Drych' gan gwmni'r Frân Wen yn 2015 ac mae'n un o sylfaenwyr Cwmni Drama'r Tebot. Ar y cyd ag eraill, fe sefydlodd gylchgrawn *Y Stamp* a'r wasg Cyhoeddiadau'r Stamp a bu'n un o olygyddion y cylchgrawn a rhai cyhoeddiadau. Mae newydd gwblhau ei ddoethuriaeth ym maes Astudiaethau Celtaidd.

Yn ogystal â llenyddia

ac astudio bu hefyd yn gweithio fel ymchwilydd a sgriptiwr teledu.

Meddai Meinir Pierce Jones, Golygydd Creadigol Gwasg y Bwthyn, 'Yn *Pridd* ceir darlun cignoeth ond cyfareddol o fywyd Hen Wŷr yng nghefn gwlad Llŷn. Wrth ddarllen deun ar draws trysorau bach o ddweud arbennig, dro ar ôl tro, sydd yn bleser pur.'

Mae awdur ifanc o Benrhyn Llŷn wedi cyhoeddi ei nofel gyntaf ar gyfer oedolion.

Pridd yw teitl y gyfrol a'r awdur yw Llŷr Titus. Y cyhoeddwyd yw Gwasg y Bwthyn o Gaernarfon.

Nofel fer drawiadol yw *Pridd* sy'n bortread byw, ac effeithiol o gynnil, o gymeriad unigryw a'r newid yng nghefn gwlad.

Meddai Llŷr, 'Mae *Pridd* yn agos at fy nghalon i, fe gafodd hi ei hysbrydoli gan fy milltir sgwâr a'r syniad o berthyn, perthynas pobl â lle a sut mae'r naill yn siapio'r llall.'

Un o Fryn Mawr gerllaw Sarn ym Mhenrhyn Llŷn yw Llŷr sydd erbyn hyn yn byw yng Nghaernarfon.

Enillodd Goron Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn 2011, a'r Fedal



Garddio



Ar ôl Ebrill oer a sych, ac er gwaethaf Mai a ddechreuodd yn oer a sych a gwyntog, dychwelodd y gog a'r wennol i'r parthau hyn. Gobeithio felly, pan fyddwch chi'n darllen hwn, bydd yr haf wedi cyrraedd a thywydd cynhesach wedi dod yn ei sgîl.

Tasgau

1. Hofio'n rheolaidd er mwyn cadw'r chwyn dan wahardd.
2. Defnyddiwch ddŵr yn ddarbodus. Os nad ydych chi eisoes wedi gosod casgen ddŵr yn yr ardd, ystyriwch gysylltu un neu ddau i'r peipiau sy'n dod lawr o'r landerydd.
3. Ewch i chwilio am y 'lladron' ar y tomatos yn gyson. Dydyn nhw'n gwneud dim ond dwyn nerth y planhigyn. Plannais *basil* efo'r tomatos llynedd ac mae'n rhaid i mi ddeud nad oedd fawr o bryfetach megis pryfed gwyn, pryfed tŷ na llyslau (aphids) i'w gweld yn y tŷ gwydr. Os am ffordd rad a di lol o waredu pla byddaf yn cymysgu dŵr a sebon meddal mewn chwistrellydd ac yn eu chwalu! Rhatach a llai niweidiol i'r amgylchedd.
4. Bydd letys, rhuddygl [radish], nionod mân a thatws cynnar yn barod i'w bwyta, un o fy hoff bethau yw brechdan gaws efo slotsyn gwyrdd blasus drosto.
5. Gosodwch y basgedi crog yn eu lle a llenwch eich potiau a bocsys ffenest gyda blodau. Cofiwch fod dyddiau poeth a/neu wyntog yn eu sychu'n sydyn. Weithiau mae'n haws tynnu'r basgedi i lawr, eu gosod mewn bwced llawn o ddŵr i'w dyfrio, fel nad yw'r dŵr yn gorlifo dros yr ochrau, ffordd arall yw ychwanegu ciwbiau rhew i'r basgedi i ddadmer fesul dipyn.
6. Torrwch y lawnt bob wythnos. Ond os ydych am hyrwyddo gwenyn (peillwyr pwysig) i'r ardd, peidiwch â'i thorri ond bob pythefnos, fydd yn cynyddu'r gwenyn sy'n ymweld â'r ardd 30%!
7. Plannwch weddill y blodau blwyddol.
8. Defnyddiwch gansen os oes gennych blanhigyn gwan a hirgoes.
9. Gallwch docio llwyni sydd wedi blodeuo yn y gwanwyn.
10. **Top tip** - pan fyddwch yn symud planhigyn o bot bach i botyn mwy, gosodwch botyn bach yn y pot mawr fel ei fod yn cyrraedd top y potyn mawr. Llenwch efo compost di-fawn o'i amgylch a'i wthio i lawr yn reit dynn, Tynnwch y planhigyn o'r pot bach a bydd yn ffitio'n berffaith.

• Cysgodwch eich tŷ gwydr rhag haul crasboeth. Mae awyru yn bwysig - hynny yw, agor neu gau'r ffenestri a'r drws fel bod angen. Mae taenu dŵr ar y llawr hefyd yn cadw'r aer yn llaith ac yn gostwng y tymheredd.

• Beth am ddefnyddio darnau o *bolystyren* (yn aml yn eich *parseli drwy'r post*) i gael draeniad effeithiol a bydd y potiau hefyd yn ysgafnach i'w trafod.

• Os nad ydych eisoes wedi gwneud, taenwch wrtaith hylifol dros fylbiau'r gwanwyn nes i'r dail wywo - **peidiwch** â thorri'r dail na gadael i'r gŵr eu torri efo'r peiriant torri gwair - neu bydd y blodau o'r bylbiau ddim yn blodeuo cystal y flwyddyn ganlynol.

• Mae'n hen bryd i'r planhigyn tyner ifainc fynd allan, ond bydd angen eu gwyllo a'u dyfrhau'n gyson. Bydd mwy o le a phethau'n haws pan fydd popeth wedi mynd allan!

Helpu'r amgylchedd a gwarchod bywyd gwyllt

Wyddech chi mai'r gwenyn yw un o'n prif beillwyr? Maent yn gyfrifol am beillio tri chwarter ein cnydau. Gallwch eu denu i'ch gardd drwy dyfu'r planhigion maent yn eu mwynhau e.e. *borage*, *buddleia*, marigold cyffredin, lafant neu rosod. Ffordd arall o helpu'r pryfetach yw - drwy fod yn flerach yn yr ardd a gadael rhai chwyn i dyfu yn y lawnt neu ar gyrion y lawnt e.e. crafanc y frân, dant y llew neu ddanadl poethion. O roi help llaw i'r bywyd gwyllt mi fydd y bywyd gwyllt yn rhoi help llaw i chi e.e. mi ddylai'r titw tomos a'r fuwch goch gota eich helpu trwy ddifa'r llyslau.

• Triwch beidio defnyddio'r peledi bach glas i ddifa'r malwod a gwlithod. Ni fydd y rhai sy'n cynnwys metaldehyde ar gael erbyn gwanwyn 2022 ac maent yn gallu niweidio anifeiliaid anwes, adar a draenogod. Gallwch ddefnyddio rhai sy'n dderbyniol yn organig sy'n cynnwys *ferric phosphate*. Os oes rhaid eu defnyddio, byddwch yn ofalus a'u taenu'n denau ar y pridd oddeutu 10 - 15 cm o gwmpas y planhigion rydych am eu gwarchod. Opsiwn arall yw lladdwyr gwlithod sy'n cynnwys *aluminium*

sulphate (dim yn hollol organig) sydd yn amgylcheddol gyfeillgar neu gallwch gael rhai sydd wedi eu gwneud o wllân. Prin yw'r perygl o ddefnyddio'r rhain i fywyd gwyllt nac anifeiliaid anwes.

• Os ydych chi'n hoffi coffi, beth am daenu cylch o falurion coffi (*coffee grounds*) o gylch eich planhigion i'w cadw'n ddiogel (mae'r *nitrogen* yn y coffi hefyd yn gwrteithio'r pridd ar yr un pryd) neu blisgyn wy wedi ei falu'n fân. Cofiwch fod *caffeine* yn wenwynig i gathod a chŵn ac yn anffodus wneith *decaf* ddim gweithio. Gallwch hefyd osod trapiau cwrw (mewn cynhwysydd o dan lefel y pridd), rhoi bandiau copr o gylch eich potiau neu fynd i'w hela efo fflach lamp pan yw'n dechrau nosi - gan eu difa wedyn mewn dŵr a halen. Petasech chi'n byw yn Ffrainc gallech eu bwyta nhw... wel rhai mathau...

Dysgu rhywbeth newydd

• Dros y blynyddoedd rwyf wedi mireinio fy ngwybodaeth am sut i fynd ati i arddio mewn sawl ffordd. Dechreuais drwy ddilyn fy niweddar dad yn ei 'helpu' a'i holi'n dwll. Cael fy ngardd fy hun wrth dyfu'n hŷn a dysgu drwy brofiad - un ai roedd rhywbeth yn tyfu neu doedd o ddim! Darllen llyfrau a chylchgronau garddio ac ymweld â gerddi megis Gardd Fotaneg Treborth, Gardd Gudd Cadnant (wrth ymyl Porthaethwy) neu Gerddi Bodnant wrth ymyl Llandudno. Mae popeth yn y gerddi hyn ar raddfa llawer mwy a chrandiach na fy ngardd fach i ond mi ydw i wastad yn gweld planhigyn/ion newydd fedra'i ffitio a'i fagu'n llwyddiannus ar waelod Moel Rhiwen.

Yn ddiweddar mi ydw i wedi dysgu llawer trwy wyllo rhaglenni garddio ar y teledu, un o fy ffefrynnau yw Garddio a Mwy, sydd ar S4C bob nos Lun ar hyn o bryd. Rwyf hefyd yn rhannu lluniau ac yn gweld lluniau pobl eraill o'u gerddi hwythau ar dudalen Facebook Garddio a Mwy ac yn dysgu a rhyfeddu llawer felly. Ffefryn arall gen i yw Monty Don sydd yn cyflwyno 'Gardeners' World' ar BBC 2 bob nos Wener, mae cyflwynwyr eraill sydd yr un mor wybodus a deallus ond mae gwyllo Monty efo'i gi yn ei 'helpu' yn ffordd dda iawn o ddysgu.

Ar ddiwedd y dydd, mi ydw i'n hoffi eistedd yn ôl yn yr ardd a'i gwyllo'n tyfu, felly dwi wedi dysgu yn anad dim, dechrau wrth fy nhraed a chofio beth sydd wedi gweithio eleni a beth sydd ddim. Mi ydw i hefyd yn cofnodi popeth sy'n digwydd yn yr ardd ac ym myd natur o fy nghwmpas i eleni mewn dyddiadur, rhywbeth dwi wedi deud byddai'n ei wneud ers blynyddoedd, ond rhywbeth sydd yn digwydd eleni ac yn ddull arall o ddysgu.

Rhosyn Mynydd



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
FFRAMIO LLUNIAU
www.fframia.com

GERAINT OWEN
CARPEDI
Cil y Mynydd
Waunfawr
Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfa Mill, Bontnewydd
(01286)650552 Symudol - 07712779475

CARPEDI
TEILS
VINYLS
DEWIS MAWR
O BATRYMAU

Ar ben arall i'r lein

Dyma ni dau fis i mewn i'r tymor ac mae pysgota'r afonydd yn eithriadol o araf. Wrth gwrs y prif reswm yw'r lefelau isel, dim dŵr o gwbl i'm denu allan, ac fel yna y mae hi heddiw sef y 10fed o Fai. Cofiwch, dal arni ydw i a gwneud yn fawr o'r tywydd braf i gael rhyw drefn ar yr ardd. Wedi i mi ddechrau arni, mi wnes i sylweddoli fod pethau wedi mynd allan o drefn, gan fy mod wedi gorfod eistedd o gwmpas oherwydd y broblem â fy nghoes. Mae hynny drosodd diolch i'r drefn, felly tacluso a phlannu pethau ydi'r gamp fawr 'rŵan yn de. Mae fy nghydymdeimlad yn fawr â'r rhai sy'n dioddef ac yn ei gweld yn anodd dros ben i gadw fyny â phethau. 'Da chi'n gwybod be dwi'n i feddwl.

Dwi'n sylweddoli fy mod hefyd yn colli tamaid go gyffrous o'r tymor, fel mae rhai sydd wedi mentro allan yn fy atgoffa, sef amser rhediad y sîls, canlyniad bwrw grawn eogiaid a gwyniaid dwy a thair blynedd yn ôl ydi'r rhain ac sydd yn gwneud eu ffordd am y môr. Diolch i'r drefn mae'n amlwg fod tipyn go lew o gwmpas eleni, a hynny'n dilyn dwy flynedd go llwm. Pysgod lliw arian yw'r rhain tua 5 - 6 modfedd o hyd, ac wrth eu dad-fachu a'u rhyddhau yn ôl i'r afon mae eich dwylo fel eu bod wedi eu gorchuddio ag arian byw. Dyma un o ryfeddodau natur i chwi brofi.

Flynyddoedd yn ôl mi fyddai nifer o'r pysgod yma o gwmpas, tua 12 modfedd o hyd o'r enw sîls y gog, pysgodyn eithriadol o brydferth ac eto wedi ei orchuddio gydag arian byw. Mae rhyw ychydig iawn o'r rhain o gwmpas o hyd, ond beth yw achos y dirywiad? Peth amser yn ôl pan oedd yr awdurdodau â diddordeb yn ein pysgodfeydd 'roedd archwiliadau yn cael eu cynnal o dro i dro er mwyn denu gwybodaeth am ba ran o'r dyfroedd oedd yn ffrwythlon ac yn glir o lygredd. Canlyniad peth o'r gwaith yma oedd denu'r wybodaeth mai tarddiad y sîls mawr yma oedd 'Rafon Las, Nant Peris. Mae gorsaf gynhyrchu trydan a dŵr wedi cael ei hadeiladu ar yr afonig fechan yma erbyn heddiw, a sgwn i os yw hyn â rhywbeth i wneud â'r dirywiad?

Er fy mod heb fod allan â'r enwair, rhaid cael rhyw seibiant o'r ardd nawr ac yn y man, felly byddaf yn mynd am dro bach lawr i Finiog, cael golwg os oes rhywbeth o gwmpas, yn enwedig pan fo adroddiadau fod tocyn o sîls yn ei llwybro hi am y dŵr hallt. Fel cadarnhad hefyd fod rhywbeth mwy o gwmpas, gwelais fod yr hen ddyfrgi wedi bod yn cael hwyl arni, gyda pheth o'i laddedigion ar lan yr afon. 'Roedd un yn weddillion gwyniedyn a oedd oddeutu 4 pwys ac yn amlwg yn bysgodyn ffres o'r môr. Felly 'da chi'n gweld pam fy mod wedi yn bod yn dal arni, rhyw weddi fach 'rŵan am drochfa go lew i godi'r afon ac i ffwrdd a fi.

Mis diwethaf rhoddwyd gwybodaeth fod Dywarchen wedi ei stocio am y tro cyntaf gyda thipyn o gerdded ar ei glannau, gyda'r

canlyniad fod brithylliaid ardderchog yn dod i'r rhwyd. Robin Owen, Penygroes ydi'r boi hyd yn hyn gyda brithyll brown hyfryd chwe phwys a hanner. Dwi'n clywed hefyd ei bod yn newynog dros ben ar badelli pentref Llanrug, gan fod Goronwy ond yn cael digon i'w badell ei hun. Tipyn o wersi gan Robin efallai!



Robin Owen, Penygroes
Brithyll Brown 6 pwys 8 owns
Llyn y Dywarchen

Newyddion da o Badarn, gyda safon y brithyll yn arbennig, fel dywedodd un wrthyf "lympiau bach tew" werth eu cael. Tydw i heb glywed fod y torgoch wedi dangos ei hunain hyd yn hyn, ond mae rhai yn cadw'r wybodaeth 'ma yn o gyfrinachol! Dwi'n gobeithio cael rhyw dyniad bach cyn bo hir. Efallai fy mod am gael lledaenu fy adenydd gyda'r torgoch, gan fy mod wedi cael gwahoddiad i drio amdanynt ar Conniston, Ardal y Llynnoedd, edrych ymlaen yn fawr am hyn - gobeithio dechrau Medi, os byddaf wedi cael trefn ar yr ardd. Wrth gwrs mae 'sgotwrs eraill o'r fro wedi bod yn hedfan am ddyfroedd dieithr. Ian Williams, Llanberis yw un gafodd amser ardderchog ar yr Afon Whiteadder sy'n llednant i'r Tweed, a'i wobwr oedd eog arbennig 10 pwys.



Ian Williams, Llanberis
Eog 10 pwys Afon Whiteadder

Mae digon o feirniadaeth wedi ei roi ar sut mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymdrin ag

achosion o botsio, nid yn unig yn y fro hon ond drwy Gymru gyfan. Ond wrth gwrs pan yn feirniadol mae'n rhaid hefyd bod yn barod i roi clôd, gan fod CNC wedi cael gafael mewn criw o wyth oedd wedi bod wrthi yn potsio'r Teifi ac afonydd cyfagos am dros ugain mlynedd. 'Roedd eu hantics ar raddfa ddiwydiannol gyda chofnodion ganddynt yn dangos eu bod wedi dod ar draws dros 1,000 o eogiaid a brithyll môr. Bu iddynt wynebu cyfanswm dirwyon o dros £20,000 gan Lys Ynadon Hwlfordd. Yn ogystal mae cais i edrych i mewn i Enillion Trosedd yn cael ei gysidro.

Ond lle bo camp mae rhemp hefyd, y cwestiwn mawr yw, sut yn y byd y mae'r rhain wedi cael llonydd i weithredu fel hyn am dros ugain mlynedd? Yw'r cofnodion o'u gweithgareddau tybed yn cynnwys enwau rhai sydd wedi prynu'r pysgod? Os oes, be sy'n digwydd i'r rhain? Yng nghylchgrawn diweddaraf *Trout & Salmon* mae amlinelliaid manwl o'r achos ac mae'r cwestiwn yn cael ei ofyn, be goblyn sy'n mynd ymlaen? A yw CNC ddim yn gwneud defnydd priodol o'r arian sy'n cael ei dderbyn gan y llywodraeth yng Nghaerdydd, neu a yw be sy'n cael ei dderbyn o'r un ffynhonnell ddim yn ddigon ar gyfer eu gwaith. Pwy sy'n gallu ateb hynny tybed? Mae un peth yn sicr, mae'r gymdeithas yn ei chael yn amhosib cael ymateb synhwyrol gan y llywodraeth na'r CNC.

Wrth gysidro'r holl gwestiwn o'r potsio yma, a'r ddadl fod dim digon o arian ar gael, heddiw clywsom y newyddion fod cynlluniau ar waith i godi nifer aelodau'r senedd yng Nghaerdydd o 60 i 96. Be fydd y gost o hynny tybed, mae'n amlwg fod digon o arian o gwmpas i bethau fel yna.



Dyma un arall o flynyddoedd yn ôl, yn y 1950's
'rwy'n meddwl - Tommy Rowlands, Llanberis
ac ymwelydd cyson â Llanberis sef Jack
'Llundain'. Pysgod da yn 'de.

Wel dyna ni am y tro unwaith eto.
Huw Price Hughes.



Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Crynodeb o gofnodion Cyfarfod 5ed Ebrill 2022

Rydym yn anfon ein cydymdeimlad dwysaf at deulu'r ddiweddar Carolyn Roberts a oedd yn gyn aelod o'r Cyngor hwn ac yn weithgar oddi fewn i'r Cyngor ac o fewn ei chymuned nes iddi gael ei tharo â salwch dros amser hir. Talwyd teyrnged iddi gan Richard, a bu tawelwch i gofio amdani. Bu i Richard a Phyllis gynrychioli'r Cyngor yn yr angladd.

Cofnodion Cyfarfod 1af Fawrth:

Cafwyd y Cofnodion yn gywir:

Materion o'r Cofnodion:

Maes Parcio Penlllyn:

Derbyniwyd ymateb i'r gŵyn am safon glanweithdra'r cyntedd a'r lifft. Nodwyd yn y llythyr fod trafodaethau ar y gweill gyda'r cwmni glanhau yn dilyn archwiliad trwyadl o'r maes parcio. Hyd yn hyn, nid oes dim wedi newid ac mae'r lifftiau allan o ddefnydd ers pythefnos.

Goleuadau is-orsaf drydan Pentir:

Derbyniwyd llythyr yn ymateb i'n pryderon ynghylch y safle. Hyd yn hyn, mae'r sefyllfa wedi gwella, ond wedi dweud hynny mae hi'n oleuach oherwydd amser y flwyddyn. Cawn weld eto sut fydd hi fis Hydref.

Llythyrau Diolch:

Derbyniwyd llythyr diolch am rodd ariannol i fudiadau gan Glwb Crefft Rhiwlas. Oherwydd eu bod wedi methu agor cyfrif banc oherwydd y Cyfnod Clo, bu i ni ddal y taliad yn ôl nes iddynt gael cyfrif yn enw'r Clwb. Pob dymuniad da i'r Clwb wrth iddynt ail gychwyn cyfarfod.

Goryrru Dinorwig:

Siomedig oedd ymateb y Cyngor Sir i'r broblem yma, i ddweud y gwir. Nad oes ganddo'r hawl dan ddeddfau'r briffordd i ail osod arwyddion cyflymdra ar strydoedd sydd wedi eu goleuo. Nid oes gan y Cyngor ddylanwad chwaith ar gwmnïau preifat sy'n rhaglennu eu systemau

– fel sat nav. Fodd bynnag mae'r Cyngor yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i newid cyflymdra o 30 i 20 m.y.a., ac am roi sylw penodol i hyn.

Cynllunio:

Derbyniwyd y ceisiadau canlynol:

C22/0209/18/LL - Gwyndy, Bethel: Lleoli 4 pod glampio, cynllun draenio, llecynnau parcio, llwybrau a thirwedd.

C22/0264/18/LL, Tir yn Garnedd, Deiniolen:

Codi stablau symudol newydd a mynedfa gerbydol ar ddarn o dir amaethyddol presennol.

C22/0301/18/LL 24 Bro Eglwys, Bethel:

Estyniad deulawr ar ochr yr eiddo.

C22/0227/18/LL - Glanrhyd, Pentir: Creu mynedfa newydd, gosod wyneb caled a lleoli adeilad ar gyfer peiriant gwerthu llefrith.

C22/0245/18/CC - Caffi Caban Brynrefail:

Gwaith ar goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed.

C22/0210/18/DT - Glanrhydfadog, Deiniolen:

Estyniadau a newidiadau.

C22/0192/18/DT - 12 Hafod Olau, Deiniolen:

Dymchwel adeilad allanol yn y cefn a chodi estyniad un llawr yn ei le.

C22/0253/18/DT - Glyn Arthur, Penisa'r-waun:

Estyniad un llawr ar gefn ac ochr.

Llwybrau:

Penisarwaun - Llwybr 93:

Cwyn gan bobl Brynhyfryd fod cwter yn arfer bod yno ar y Ffordd lwybr, erbyn hyn mae dŵr yn sefyll yno ac yn fwdlyd ofnadwy.

Bethel - Llwybr o Gefn Cae Pêl-droed Bethel i Lôn Cae Metta:

Mae yna ddarn yno oedd fel llyn tua mis yn ôl

yn dechrau sychu bellach. Ond mae ffosydd ger yr ochr a gwartheg wedi bod yno ac mae'r lle yn wlyb a thyllau.

Cysylltu â'r Adran Llwybrau i holi hefyd ynglŷn â chynllun gwella, a threfnu cyfarfod.

Rhiwlas - Llwybr Carreg y Gath:

Yn dilyn datblygiad unwaith eto a digwyddiad o fod wedi codi'r llwybr a gosod draeniau i lawr, er ein bod wedi gofyn sawl gwaith am gael rhoi'r llwybr ar y map yn gywir, bellach mae'n rhaid symud ar y mater, ac wedi dechrau ar y gwaith gyda'r Cyngor Sir. Yn anffodus, mae hi'n broses hir a chymhleth, braidd, ond o leiaf mae llygedyn o obaith erbyn hyn i gael cywiro'r mapiau lle mae'r llwybr yn ymddangos yn anghywir.

Lloches Bws Brynrefail:

Byddwn yn gosod cysgodfan bws newydd yn y pentref yn fuan.

Côr Cymru:

Pleser pur oedd gweld Huw Foulkes, yn enedigol o'r plwyf, yn arweinydd y Côr a ddaeth i'r brig, sef Côr Dydd. Huw, yn enedigol o Fethel, wedi mynychu Ysgol Gynradd Bethel ac Ysgol Brynrefail, yna ers rhai blyneddodd bellach yn gweithio ac yn byw i lawr yn y ddinas fawr, Caerdydd. Llongyfarchiadau anferthol i ti Huw, rydym mor falch o gael cyfeirio atat fel hogyn o Landdeiniolen!

Eco'r Wyddfa:

Rydym hefyd fel Cyngor yn llongyfarch pawb sydd wedi gweithio dros y blyneddodd er mwyn sicrhau ein bod fel ardal wedi derbyn a chael mwynhau darllen yn fisol 500 o gyhoeddiadau o'r Eco. Diolch i chi i gyd am eich gwaith caled mewn unrhyw ffordd, a diolch i bawb sydd yn cyfrannu at ei gynnwys bob mis. Bydded hir barhad iddo.

Ardal Ni 2035:

Hoffwn fel Cyngor dynnu sylw, gan obeithio fod pawb wedi llenwi'r holiadur holl bwysig yma.

Stryd Fictoria, Deiniolen:

Mae wal y cae'n disgyn i lawr mewn sawl lle, ac mae'r ardal yma'n flêr wrth ddod i mewn i Ddeiniolen.



Cysylltwch â Dioni i siarad am eich bwthyn gwylia
Gwion Llwyd 01341 247 200 gwion@dioni.co.uk
BUSNES LLEOL...CWSMERIAID BYD EANG



BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiâu ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol -
Ffoniwch (01248) 361044
D. P. OWENS RHIWLAS



Gwasanaeth Prydau yn y Gymuned
Age Cymru Gwynedd a Môn

Prydau bwyd wedi'u darparu o **Caffi'r Cartref**
Age Cymru Gwynedd a Môn,
Bontnewydd a'u cludo i'ch cartref
(Ar gael Dydd Llun i Ddydd Gwener)
Cost prif gwrs yn £6 neu gost prif gwrs a phwddin yn £8.50 (yn cynnwys cost cludiant)

Ffoniwch 01286 685 926 neu ebost mow@acgm.co.uk am wybodaeth neu i archebu.
Rydym hefyd yn chwilio am yrrwyr i wirfoddoli gyda cludo'r prydau (ad-delir 40c y filltir)



Cyngor Cymuned Llanberis

Cofnodion Cyfarfod mis Mawrth 2022

Cynhaliwyd Cyfarfod y Cyngor yn Y Ganolfan, Llanberis nos Fercher y 9fed o Fawrth, 2022.

Presennol ac Ymddiheuriadau:

Ward Padarn: Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Iwan Harding, Bethan Holding, Heather L Jones, Cyng. Kevin Morris Jones, Kim Jones, Claudia O'Donnell, Helen Sharp.

Ward Peris: Iola Owen.

Ymddiheuriadau: Olwen Gwilym, Llinos Haf Pritchard. Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

Datgan Buddiant:

Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

Cadarnhau Cofnodion:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher, y 9fed o Chwefror, 2022 fel rhai cywir.

Materion yn codi o'r Cofnodion:

1. Cyflwr fflat ym Maes Padarn:

Adroddwyd fod llawer o'r gwaith o'r diwedd wedi ei gwblhau gan gwmni Adra, ond nid y cwbl, ond roedd dyddiadau wedi eu nodi ar gyfer gorffen y gwaith. Dywedodd HS fod y tenant yn ddiolchgar am ymyrraeth y Cyngor a'r Clerc a chymorth KJ.

2. Cae Pêl-droed UEFA:

Adroddwyd fod y gwaith wedi ei gwblhau. Adroddodd y Clerc i'r cwmni a osododd y sgip ddifetha peth ar Gae'r Ddôl wrth ei gosod a'i symud oddi yno. Adroddodd iddo drefnu i EB glirio'r mwd oedd wedi ei wasgaru ac i dalu iddo. Bydd yn ceisio cael y cwmni i ddigolledu gweddill y gwaith adfer a drefnir gan Y Ganolfan mewn cydweithrediad â Pharc Padarn. Oherwydd problemau llif arian ac oedi cyn y derbynnyr cyfraniad Cist Gwynedd o Gyngor Gwynedd (CG) tuag at y gost, gofynnodd y Clerc gyda chefnogaeth y Cadeirydd i Bwyllgor y Ganolfan a'i Hysgrifennydd a oedd modd iddynt ystyried talu gweddill y bil o ychydig dros £10,600 nes y daw'r arian grant i law. Cytunwyd ar hynny, a mynegwyd diolchgarwch y Cyngor i'r Ganolfan. Fel arall, byddai wedi bod yn amhosibl bod yn sicr y gellid talu gweddill biliau'r Cyngor cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Gwelir yn nes ymlaen fod gan y Cyngor fwy na digon o arian i weithredu tan ddiwedd y flwyddyn gyda'r benthyciad dros dro. Er bod y Clerc wedi diolch i'r cymwynaswyr a gyfrannodd at gost y cae, awgrymwyd rhoi nodyn i ddiolch iddynt ar Wefan y Cyngor.

4. Cysgodfan Bws:

Dal i ddisgwyl dyddiad cyflenwi.

5. Llwybrau:

Mae cyflwr un pentan neu biler sy'n dal Pont Meibion, Nantperis wedi dirywio. Bydd y Clerc yn chwilio am brisiau er mwyn ei atgyweirio ac yn gofyn am gymorth oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) a/neu CG.

6. National Grid - Gwaith Ffordd:

Dal heb ei gwblhau y mae'r gwaith ar y Ffordd Osgoi. Yn y cyfamser, mae goleuadau wedi eu gosod i ddechrau'r gwaith o ben Allt Chwarel Glyn i gyfeiriad Llwyncoed.

Materion Eraill:

1. Goleuadau Nadolig:

Mewn cyfarfod gyda Grŵp Datblygu Llanberis bu trafodaeth am oleuadau Nadolig y pentref.

Tra'n canmol y goleuadau ar y goeden o flaen Yr Heights, roedd siom fod cynifer o oleuadau'r polion ar y Stryd Fawr yn ddiffygiol. Deallir fod y Grŵp wedi derbyn swm sylweddol o arian tuag at oleuadau'r dyfodol a'u bod yn holi beth fyddai'r drefn y flwyddyn nesaf. Does dim gorfodaeth ar Gynghorau Cymuned i osod a chynnal goleuadau Nadolig, ond mae'r Cyngor hwn wedi gwneud hynny ers nifer o flynyddoedd ac eisoes wedi nodi'r bwriad i wella'r ddarpariaeth y Nadolig nesaf. Penderfynwyd anfon gair at Ysgrifennydd newydd y Grŵp i nodi hynny ac i drefnu cyfarfod yn y gwanwyn ar ôl yr Etholiad i ethol Cyngor newydd.

Gohebiaeth:

1. Llythyr Gwyndaf Hughes, Llanrug:

Derbyniwyd llythyr beirniadol o gynghorau'r fro a oedd yn honni nad oedd ganddynt weledigaeth ac yn awgrymu y dylent gydweithio mwy. Roedd y Clerc wedi trafod y mater gyda Chlerc Llanrug ac roeddent yn ystyried galw cyfarfod i Gadeiryddion, Is-gadeiryddion a Chlercody tri phlwyf. Wedi trafodaeth fer, penderfynwyd mai ar ôl yr Etholiad y dylid gwneud hynny, os mai dyna fyddai dymuniad aelodau'r Cyngor newydd a'r cynghorau eraill.

2. Cwmni Yswiriant Zurich:

Cafwyd llythyr yn cadarnhau y bydd y cwmni'n talu am y gysgodfan bws a ddinistriwyd gan lori, ac am ei gosod yn ei lle, llai £100.

3. Diolchiadau:

Cafwyd gair o ddiolch gan bob un o'r elusennau/cymdeithasau a dderbyniodd arian o'r Gronfa Môn-gymorthdaliadau eleni.

4. Cylch yr Iaith:

Llythyr gan y mudiad yn datgan ei werthfawrogiad fod CG yn bwriadu datblygu mesuryddion i ganfod effeithiau twristiaeth ar sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymunedol yn y sir. Bydd hyn meddir yn rhan o ddatblygu Economi Ymweld Gynaliadwy a pholisi twristiaeth newydd ar y cyd rhwng CG ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae Cylch yr Iaith yn awgrymu y dylid datblygu mesuryddion sy'n edrych ar nifer y siaradwyr Cymraeg, iaith ysgolion, iaith stoc tai ac iaith busnesau.

5. Benthyc Cymru (Wales Library of Things):

Llythyr oddi wrth y mudiad yma yn egluro fod y syniad o greu Llyfrgelloedd Pethau yn dechrau ennill tir ar draws Cymru ac yn holi a oedd diddordeb yn lleol i sefydlu un yma. Mae'n ffordd i gael pobl a mudiadau i fenthycu am brisiau rhesymol, neu i bobl roi o'u hamser yn lle talu arian. Gallai arwain at arbed arian, lleihau gwastraff, ail ddefnyddio a thrwsio yn ogystal â chymryd mantais o gronfa 'Economi Gylchol' Llywodraeth Cymru. Gan fod hwn yn syniad newydd penderfynwyd y dylid dod yn ôl ato ar ôl sefydlu Cyngor newydd yn dilyn Etholiad mis Mai.

6. Y Comisiwn Etholiadol:

Cyhoeddwyd nifer o bosteri gan y Comisiwn i annog pobl i droi allan i bleidleisio yn etholiadau'r Cynghorau Sirol a Chymunedol ym mis Mai. Addawodd y Clerc ddosbarthu rhai ohonynt yn agosach at amser yr Etholiad.

7. Coed Cadw:

Llythyr yn holi a oedd gan y Cyngor dir y gellid plannu coed arno. Y mudiad yn cynnig coed i'w plannu, ond gan nad oes gan y Cyngor dir, nid yw'r cynnig yn berthnasol.

8. National Grid:

Cylchlythyr arall yn adrodd am y gwaith gosod dwythellau tanddaearol ar hyd llwybr yr A4086. Erbyn hyn mae'r Ffordd Osgoi yn Llanberis wedi ail agor, ond mae misoedd os nad blynyddoedd o drafferthion yn wynebu'r ardalwyr.

Cynllunio:

- **C22/0117/15/DT** - 3 Stryd Ianci, Llanberis - *cais ar gyfer codi estyniad ochr deulawr ac estyniad unllawr i gefn yr eiddo* - Dim sylw.
- **C22/0160/15/DT** - Bod Arthur, 9 Rhos Cambrian, Llanberis - *estyniad cefn unllawr* - Dim sylw.
- **C22/0185/15/AM** - 3 Mur Mawr, Llanberis - *cais amlinellol i leoli caban coed ar gyfer defnydd preswyl* - Wedi cryn drafodaeth teimlwyd nad oedd hwn yn ddatblygiad dymunol yn y safle yma, ymhell oddi wrth adeiladau eraill ac mewn gwlad agored ac yn weddol amlwg o'r bryniau cyfagos. Holwyd tybed a fyddai ceisiadau pellach yn dilyn am fwy o gabanau pe byddai hwn yn cael caniatâd, a holwyd am sefyllfa carthffosiaeth yr ardal.

Y Fynwent:

Cytunwyd i barhau â'r drefn arferol o dorri gwair.

Adroddiadau Allanol:

Grŵp Datblygu Llanberis:

Cafwyd adroddiad fod y Grŵp wedi ethol swyddogion. Mae Emlyn Baylis yn parhau'n Gadeirydd gyda David Crombie yn Is-gadeirydd. Soniwyd hefyd fod y Grŵp yn bwriadu ehangu ei aelodaeth a'i ddiddordebau gan fod yn fwy na grŵp busnes yn unig. Ymhlith materion a drafodwyd roedd goleuadau Nadolig y pentref, ceisiadau am grant a chyhoeddi pamffled cyhoeddusrwydd y pentref.

Y Ganolfan:

Bellach mae'r Tapestri i gofio wyth gan mlynedd adeiladu Castell Dolbadarn (2020) wedi ei gwblhau a bydd yn cael ei ddadorchuddio nos Fawrth y 29ain o Fawrth am 7yh.

SIÂN GWENLLIAN
AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON



 01286 672076

 8 Stryd y Castell Caernarfon

 sian.gwenllian@senedd.cymru

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronfeydd cyhoeddus

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug

Cynhaliwyd ar y 15fed o Fawrth 2022

Y Fynwent

Adroddwyd fod e-bost wedi'i anfon at yr Eglwys yng Nghymru am y wal ond na chafwyd ymateb hyd yma.

Adroddwyd fod trefniadau ar y gweill i gyfarfod â chynrychiolwyr o gwmnïau ymgwymerwyr angladdau.

Adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones, aelod dros Gwm y Glo ar Gyngor Gwynedd

Y Cyngor Sir

Parcio – Gan fod problemau parcio o gwmpas y sir yn ystod yr haf, 'roedd rhaid i'r cyngor gysylltu gyda'r heddlu er mwyn cael symud rhai ceir. Erbyn hyn mae'r cyngor wedi cael hawliau i wneud hyn.

Campervans – Er mwyn annog perchnogion *campervans* i beidio aros dros nos mewn mannau sydd ddim yn addas, mae Cyngor Gwynedd am dreialu lle dros nos iddynt gyda chyfleusterau priodol – oddeutu 6 lleoliad o fewn y sir. Ar ôl amser priodol, bydd y treial yn cael ei werthuso.

Newid Hinsawdd – Erbyn hyn mae Bwrdd Newid Hinsawdd y Cyngor wedi ei greu ac yn cyfarfod yn rheolaidd. Maent wedi cyhoeddi cynllun gweithredu hefo nifer o brosiectau, ac mae £3 miliwn wedi ei glustnodi at y flwyddyn yma. Y bwriad yw gwneud y Cyngor Sir yn garbon niwtral erbyn 2030. Y gobaith yw ceisio dylanwadu ar eraill o fewn y sir i wneud yr un fath.

Treth y Cyngor - Penderfynodd y Cyngor Llawn ar ôl peth trafodaeth i godi trethi 2.95%.

Yn Lleol

Arwyddion ffyrdd - Mae'r arwydd 30 m.y.a. ar geg stad Dolafon wedi'i dynnu i lawr a'r arwydd 30 m.y.a. yng Ngheunant wedi ei symud yn bellach i fyny'r allt gyda'r gobaith y bydd hyn yn arafu'r traffig ynghynt. Hefyd mae asesiad o gyflymder ceir yn ardal Ceunant wedi ei wneud ond nid yw'r canlyniadau wedi cael eu dadansoddi eto.

Mae cryn broblem efo ceir yn cael eu gadael mewn mannau o gwmpas y ward heb dreth na MOT. Un car sydd wedi'i symud hyd yn hyn, ond mae mwy o waith i'w wneud i geisio symud rhai eraill.

Adroddiad gan y Cynghorydd Beca Brown, aelod dros Lanrug ar Gyngor Gwynedd Y Cyngor

Cefnogwyd yn unfrydol fy nghynnydd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ariannu 70% o dâl aelodaeth cynlluniau bwyd fel un Llanrug a Chwm-y-Glo gyda Fareshare. Mae hyn yn dilyn trafodaeth efo Fareshare Cymru a deall bod cynnydd o 4 i 40 o'u cynlluniau bwyd nhw wedi bod dros gyfnod y pandemig yn unig. Mae hwn yn gyfnod digynsail gyda chostau byw yn codi a phwysau anarferol yn cael ei roi ar bobl ein cymunedau.

Cafwyd cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu er mwyn cael cyflwyniad gan Jo Whitehead o'r Bwrdd Iechyd. Llongyfarchwyd y gweithwyr rheng flaen am eu gwaith a diolchwyd i staff y canolfannau brechu am eu holl ymdrechion.

Y Ward

Mae cynlluniau ar droed i ymgynghori efo trigolion a busnesau Ffordd yr Orsaf o ran y syniad o wneud y lôn yn un unffordd neu beidio. Rydw i wedi pwyso am gael peintio ac ail-beintio safleoedd bws ger Corlan y Rhos a Tegfan ac i gymryd camau i wneud y sgwâr yn saffach. Rydw i wedi cael cyfarfod efo swyddog ac mae ymgynghori ar waith.

Daeth cwynion di-ri am faw ci a sbwriel hyd y pentref, a bum allan fy hun i godi baw ci ar hyd Ffordd Llanberis oherwydd bod plant bach a choetsus yn codi baw o'r pafin ger yr ysgol gynradd.

Rwyf wedi adrodd ar gwynion niferus am dyllau yn y ffordd tu allan i'r Co-op ac yng ngheg Nant y Glyn hefyd.

Ceisiadau am gymorth ariannol.

Penderfynwyd rhoi grant o £1,000 i Glwb Pêl-droed Llanrug Unedig ac £800 i Seindorf Arian Llanrug.

Ceisiadau Cynllunio

Penderfynwyd cefnogi'r cais i dynnu'r estyniad unllawr ar gefn Gwynfa, Ffordd Yr Orsaf, Llanrug a lledaenu'r estyniad deulawr presennol yn ei le.

HYWEL WILLIAMS

AELOD SENEDDOL ARFON



01286 672076

8 Stryd y Castell Caernarfon

hywel.williams.mp@parliament.uk

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Senedd San Steffan, o gronfeydd cyhoeddus



Llwyddiant Rheolwyr o Gymru

Gyda'r tymor pêl-droed yn dod i ben, mae wedi bod yn dymor llwyddiannus dros ben i ambell reolwr o Gymru. Mae wedi bod yn dymor gwych i Steve Cooper yn Nottingham Forest, Nathan Jones yn Luton Town a Rob Edwards yn Forest Green Rovers.

Mae cyn-reolwr Abertawe, Steve Cooper, erbyn hyn yn rheoli Nottingham Forest, sydd hefyd yn y Bencampwriaeth. Cafodd ei benodi fel rheolwr y clwb ym mis Medi 2021. Pan ymunodd Steve Cooper â Nottingham Forest roedd y tîm yng ngwaelodion y Gynghrair. Fe



lwyddodd Steve Cooper i'w codi nhw i orffen yn y pedwerydd safle gyda 80 o bwyntiau gan sicrhau eu lle yn y gemau ail-gyfle. Mae'r tîm wedi cael tymor llewyrchus gan sgorio 73 o goliau. Fe lwyddon nhw i guro Arsenal a Chaerlŷr gan eu taflu allan o Gwpan yr FA.

Sheffield United sydd yn eu hwynebu yn rownd gynderfynol y gemau ail-gyfle. Hefyd yn cael llwyddiant yn y Bencampwriaeth mae Nathan Jones, rheolwr Luton Town. Roedd yn rheolwr arny'n nhw rhwng 2016 a 2019 cyn



dychwelyd yn ôl mis Mai 2020. Pan ymunodd Nathan Jones â Luton Town roedden nhw yn y 23ain safle yn y Bencampwriaeth ond fe lwyddon nhw i orffen tymor 2019/20 yn y 19eg safle gan osgoi gostyngiad o'r Bencampwriaeth. Aeth pethau o nerth i nerth i dîm

Nathan Jones wrth iddyn nhw orffen y tymor diwethaf yn y 12fed safle yn y tabl gyda 62 o bwyntiau – y cyfanswm uchaf o bwyntiau iddyn nhw gael yn y Bencampwriaeth ers tymor 1981/82. Nid dyna oedd y



diwedd ar y llwyddiant, oherwydd llwyddon nhw i wneud yn well na hynny tymor yma gan orffen yn y 6ed safle gyda 75 o bwyntiau a sicrhau eu lle yn y gemau ail-gyfle. Tipyn o gamp felly gan Nathan Jones o lwyddo i godi Luton Town o waelodion isaf y tabl i'r safleoedd ail-gyfle mewn dau dymor. Yn ganmoliaeth i'w llwyddiant, cafodd ei enwi fel Rheolwr y Flwyddyn yn y Bencampwriaeth y tymor yma. Mi fydd Luton Town yn wynebu Huddersfield Town yn rownd gynderfynol y gemau ail-gyfle.

COLOFN CHWARAEON

Y 'Tlws Mawr' yn dod i Wynedd

Efallai i rai ohonoch gofio Tîm Aelwyd yr Urdd, Llanberis yn cipio Cwpan Pêl-droed Pantyfedwen ddegawdau yn ôl. Roedd pawb wedi rhyfeddu at faint y cwpan ysbennydd hwnnw. Wel eleni mae Tarian fwyaf y byd pêl-droed wedi ei hennill gan dîm dan 11 Ysgolion Gwynedd. Dychwelodd y garfan gref o'r De gyda chryn falchder. Mae'r gystadlueaeth am darian Tom Yeoman yn mynd yn ôl ddegawdau, ac yn adlewyrchu safon uchel o chwarae. Cystadlueaeth rhyng-sirol yw hi bellach, ond flynyddoedd yn ôl roedd timau fel Arfon Boys, Ynys Môn a Newport Boys, yn cystadlu.

Ie, gêm Seisnig ei hieithwedd oedd pêl-droed y cyfnod hwnnw. Bellach, mae'n braf gweld bod CPD Cymru yn Cymreigio pethau, gydag Ian Gwyn Hughes yn arwain yn gadarn. Yr oedd pedwar o aelodau clwb pêl-droed Bethel yn y tîm llwyddiannus - Deio Davies, Jac Davies, Caio Jones a Ceian Davies. Fel rhan o'r dathliadau roedd pob aelod o'r tîm buddugol yn cael mynd â'r darian i'w harddangos yn eu hysgolion unigol. Tipyn o wefr fu hi i Caio i arddangos y darian i'w gyd-ddisgyblion yn Ysgol Bethel.

Tlws Tom Yeoman

Bûm yn cystadlu ynddi fel rheolwr Ysgolion y Barri am dri thymor rhwng 1970-1973. Yn 1972 aethom i'r rownd gyn-derfynol cyn colli o 3-2 yn erbyn tîm Casnewydd. Roeddwn i'n bles iawn â chyfraniad y bechgyn. Yn y rownd



derfynol fe drechwyd Casnewydd o 17-0 dros ddau gymal gan dîm cryf ofnadwy Glannau Dyfrdwy. Gyda llaw fe sgoriodd un chwaraewr 13 o'r goliau hynny. Ie, tipyn o sgoriwr oedd Ian Rush. Hanner can mlynedd yn ôl. Mêt, ti'n mynd yn hen.

Llwyddiant yr Haenau?

Erbyn hyn mae tymor cyntaf yr 'haenau' newydd wedi dod i ben. Un haen Ogleddol gyflawn yna gwahanol haenau ardal. Llanberis a Llanrug gyda'i gilydd yn Haen 4 o'r pyramid a'r Waunfawr yn haen 5. Bu cryn ddadlau fe gofiwch ynglŷn â rhai o'r meini prawf a ddefnyddiwyd i leoli'r clybiau yn enwedig cyflwr y meysydd. Bu

cryn ddadlau fod Eithin Duon a maes Ffordd Padarn wedi cynnal gemau Cwpan Cymru, rhai yn erbyn clybiau o Uwch Gynghrair Cymru, ond mewn haen isel. Ni fydd unrhyw un o'n timau lleol yn esgyn y tymor yma a chlybiau canol y tabl oeddent. Cafwyd rhai buddugoliaethau i'w sawru, ac yn ddi-os daeth hen dân y gorffennol yn ôl yn y gemau darbi rhwng Llanrug a Llanberis. Â'r Eco yn mynd i'w wely bydd y ddau yn cyfarfod eto ar Eithin Duon mewn gêm gwpan, felly gobaith hwyr am dipyn o Bracso. Distaw iawn yw hi wedi'r honiad o 'ymddygiad llafar hiliol' yn y gêm rhwng Llanberis a Meliden. Mae hyn yn llesteirio llif y gemau yn y Gwpan Arfordirol honno. Darllenais yn ddiweddar bod mudiad annibynnol yn gwneud astudiaeth fanwl o bresenoldeb hiliaeth mewn sawl camp ar lefel llawr gwlad. Edrychwn ymlaen at ddarganfod eu tystiolaeth. Yna, os yw yn bodoli ym mha ffordd gellir ymateb i'r agwedd hollol annerbyniol yma.

Rwyf wedi gweld nifer o gemau Haen 4 eleni. Yn achos ein 'cynghrair ardal ni', mae rhyw 8 tîm cystadleuol yn bodoli, ond mae timau'r 'gwaelodion' dan gryn bwysau. Gobeithio mewn rhyw ddau dymor arall bydd y timau yn darganfod eu gwir lefel. Ond erys yr hen gwestiwn - a oes digon o chwaraewyr i gynnal y safon i gymaint o dimau lleol. Mae'n hollol angenrheidiol fod llwybr pendant yn cael ei sefydlu yn enwedig rhwng oedrannau 16

ac 18 i fwydo'r timau oedolion. Dyma'r oedran coll. Gyda CPD Cymru i'w weld am gyflwyno'r rheol 'un chwaraewr un clwb' pa ddylanwad gaiff hyn yn yr oedran fwydo hanfodol y cynradd hyd dan 14? Amser a ddengys.

I orffen yn bositif, rhaid cyfeirio at ffyddlondeb y cefnogwyr sydd wedi dod i gefnogi'r timau lleol. Ar rai Sadyrnau roedd mwy yn gwylio gêm yn Haen 4 nac ar faes Pencampwyr Cymru Y Seintiau Newydd! Clywais am un tîm yn Haen 4 oedd wedi gwneud elw o £1,000 rhwng yr arian mynediad, cwt te, a'r raffl pan ymwelodd tîm 'galacticos' Bangor. Dyna beth yw hwb i glwb 'amatur'. Byddent yn yr un gynghrair y tymor nesaf hefyd.

Dyma'n Cyfle

Gemau Rhyngwladol Cymru Pêl-droed, Rygbi (dynion a merched), gemau cartref criced Morgannwg (dim Bae Colwyn eleni). Lleoliad pob un yng Nghaerdydd. Anawsterau i gefnogwyr y Gogledd - amseroedd dechrau'r gemau (ar nosweithiau Gwener a phnawn Sul), amser teithio, dim cysylltiadau teithio addas (bysiau, trenau), costau aros dros nos, a phris tocynnau yn afresymol yn enwedig yn y rygbi. Hen, hen ffeithiau heb arwydd o wellhad.

Rwan daw cyfle i ni newid y sefyllfa drwy gefnogi cais Cyngor Wrecsam i uwchraddio'r Cae Râs yn y dref. Eu bwriad yw sugno arian o Gronfa Lefelu(?) llywodraeth Llundain. Yn benodol datblygu'r hen Kop sydd wedi sefyll yn wag yn ei rhwd a chwyn ers sawl blwyddyn, a'i throi yn eistedd yn cynnal torf o 5,000. Gwell adnoddau cyfathrebu cyfryngol a lletygarwch a'i throi yn Stadiwm y Gogledd penodol ar gyfer sawl camp. Y gobaith hefyd yw y bydd yn stadiwm gartref i dîm y dref fydd wedi dychwelyd i'r Gynghrair Pêl-droed haen 4.

Cysylltwch yn eich miloedd â manylion y ddeiseb ar y Wê a dangos eich cefnogaeth. Mor bell yn ôl roedd y Kop yn wenfflam a chic dros ben Mark Hughes - bachgen lleol - yn hedfan i'r rhwyd a Chymru'n curo tîm llawn sêr Sbaen. Roeddwn i yno, a braf fuasai ail fyw'r wefr yn y cyfnod yma o adfywiad pêl-droed ar lefel ryngwladol yng Nghymru.

Richard Jones

Symud nawr i Gynghrair Dau at Rob Edwards, cyn-reolwr Forest Green Rovers (sydd newydd gael ei benodi fel rheolwr newydd Watford mis Mai eleni). Fe gafodd ei benodi yn rheolwr ar Forest Green Rovers ym mis Mai 2021 ac fe gafodd bedair buddugoliaeth yn ei pum gêm gyntaf wrth y llyw. O ganlyniad i hynny fe enillodd gwobr Rheolwr y Mis ar gyfer mis Awst ac eto ym mis Tachwedd a mis Ionawr. Ym mis Ionawr fe lwyddodd i gael 14 pwynt mewn chwe gêm gan eu rhoi deg pwynt yn glir ar y brig. Ar y brig oedd safle gorffenedig y tîm gan sicrhau dyrchafiad i Gynghrair Un

am y tro cyntaf yn hanes y clwb! Camp aruthrol felly wedi cael ei gyflawni gan Rob Edwards. Oherwydd ei gamp fe gafodd ei wobrwyo gan ennill Rheolwr y Tymor yn y gynghrair. Yn dilyn llwyddiant Forest Green Rovers, fe gafodd ei benodi fel rheolwr newydd Watford a fydd yn y Bencampwriaeth y tymor nesaf ar ôl disgyn o'r Uwch gynghrair.

Gyda Rob Edwards felly nawr yn y Bencampwriaeth, a fydd Steve Cooper a Nathan Jones dal yno tymor nesaf neu bydd un ohonyn nhw wedi llwyddo ei gwneud hi i'r Uwch gynghrair? Dim ond amser a ddengys.

Merch yn serennu yn y Rasys Mynydd lleol



Mae'r gyfres Rasys Nos Fawrth yn bodoli ers dros chwarter canrif bellach, ac wedi mynd o nerth i nerth dros y blynyddoedd, ar wahan wrth gwrs i'r ddwy flynedd ddiwethaf. Ond eleni mae'r gyfres yn ôl, a'r niferoedd yn cystadlu yn rhyfeddol. Yn ras gyntaf y tymor ar Foel Tryfan daeth 106 o redwyr i herio'r mynydd. Cyrhaeddwyd uchafbwynt o 147 yn cystadlu ym Mhenmaenmawr. Anhygoel i ras ganol wythnos yn cychwyn am chwarter wedi saith y nos! Ac y mae rasys plant yn ychwanegol i'r cyfanswm hwn, gyda nifer dda o bob oedran yn cystadlu dan lygad gofalus Neal Hockley, Llanberis – sy'n cynnal ymarferion wythnosol iddynt. Y rhain fydd dyfodol Clwb Rhedwyr Eryri.

Mae dros hanner rasys y gyfres wedi eu cynnal hyd yma: Moel Tryfan, Aber, Y Foel Lus, Graig Lwyd, Pen Dinas, Moel y Gest a Mynydd Mawr. Yr hyn sy'n galonogol yw bod cymaint mwy o ferched yn cystadlu eleni, a merch leol sy'n serennu. Mae Jenny Heming o Lanberis

bellach yn cystadlu yn y dosbarth dros 50 oed, ond nid yw oedran yn llesteirio dim arni. Nid yn unig y mae wedi ennill pob ras yn y dosbarth oedran hwn, ond wedi dod yn ferch gyntaf mewn sawl ras a thorri record y cwrs sawl gwaith hefyd. Mae'n amlwg mai rasys gyda dringo serth sy'n apelio. Yn Ras Graig Lwyd, Penmaenmawr mae tair gallt serth iawn, a daeth yn ferch gyntaf gan orffen yn 21ain allan o 105 o redwyr, a thorri record y cwrs. Yn Ras Pen Dinas, Nant Peris – sy'n cyfateb i ddringo 1,400 troedfedd mewn ychydig dros filltir – roedd yn ferch gyntaf (17/82), gan dorri record y cwrs; ac yn Ras Moel y Gest (ddim cweit mor serth) roedd yn ail ferch (23/87).

Daeth Wil Evans yn ail yn yr adran i ddynion dros 50 oed yn ras Mynydd Mawr, ac mae Maggie Oliver, Dinorwig yn parhau i ennill yn yr adran i ferched dros 70 oed, a Dafydd Thomas, Llanrug wedi torri dwy record yn yr adran i ddynion dros 75 oed. Nid yw oedran yn fygythiad i redwyr bro'r 'Eco'!

Ar y Sadwrn cyntaf ym mis Mai cynhaliwyd Ras Moel Eilio, ac mae holl elw'r ras yn cael ei gyflwyno i Ofal Cancr Tenovus. Bachgen lleol, Richard Roberts o Lanberis oedd yn fuddugol

mewn amser o awr ac 14 munud (fo hefyd oedd y rhedwr cyntaf dros 40 oed). Ar yr un diwrnod roedd Pencampwriaeth Timau Rhyng-Sirol Prydain yn cael ei chynnal ar y cwrs, ond yn osgoi dringo Moel Cyngorion, ac yn rhuthro tua'r diwedd i lawr Maesgwm. Er bod y ras yn cael ei galw'n 'rhyng-sirol', mewn gwirionedd gwahanol ranbarthau oedd yn cystadlu. Yn cynrychioli Rhanbarth Gogledd Cymru roedd Rhodri Owen, Waunfawr a Gareth Hughes, Penisarwaun – sef aelodau o'r tim orffennodd yn ail ar y diwrnod.

Ond rhaid peidio anghofio'r rhedwyr ffordd chwaith. Yn Hanner Marathon Wrecsam roedd Rhodri Owen, Waunfawr yn 6ed mewn amser o 70 munud 13 eiliad, gydag Adam Jones, Llanberis yn seithfed, ddwy eiliad yn unig o'i ôl. Yn Hanner Marathon Shakespeare yn Stratford daeth Dyfed Thomas, Llanrug yn 17eg mewn 81 munud allan o 1,200 o redwyr. Yn Ras 10k Rhostryfan, Arwel Lewis, Bethel oedd y rhedwr cyntaf dros 60 oed.

Ac i ddiwedd, rhaid peidio anghofio'r holl drefnwyr, y cofnodwyr, yr amserwyr a'r stiwardiaid sy'n fodlon cefnogi'r rasys er mwyn i'r rhedwyr gael cystadlu.

ISSN 2516-7235



9 772516 723001 >